PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

PRIS 75c | Rhif 404 | Rhagfyr 2017

Ffilm leol ar Youtube



t.19

Cwis! Cyfle i ennill gwobrau!




t.7

Taith i Batagonia




t.9

# Nadolig Llawen!





Lluniau: Arvid Parry-Jones



Ysgol Penrhyn-coch yn 'Dilyn y seren' o gwmpas y pentref.

# y tincer


**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**



**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 627916
**GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**IS-GADEIRYDD – Richard Owen,**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 820168
**YSGRIFENNYDD – Anwen Pierce**
3 Bryn Meillion, Bow Street ☎ 828337
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cysyllter â'r Trysorydd**

**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Grace Bailey**, Pencarreg, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871462
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Mrs Aeronwy Lewis**
Rheidol Banc, Blaengeuffordd ☎ 880 645
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

**Rhifyn Medi Deunydd i law:** Ionawr 5 **Dyddiad cyhoeddi:** Ionawr 17

**RHAGFYR 21** Nos Iau Plygain draddodiadol dan nawdd Cymdeithas y Penrhyn yn Eglwys St Ioan am 7.00.
**RHAGFYR 22** Bore Gwener Gwasanaeth Nadolig Ysgol Penweddig ym Methel, Stryd y Popty am 10.30
**RHAGFYR 22** Pnawn Gwener Ysgolion Ceredigion yn cau dros y Nadolig a'r Calan

**2018**
**IONAWR 5** Nos Wener Noson i groesawu 2018 yng nghwmni cangen Rhydypennau, Plaid Cymru, a'n Haelod Seneddol Ben Lake yn Nhafarn y Black, Bow Street am 7.30. Darperir lluniaeth ysgafn. Croeso i bawb!
IONAWR 8 Dydd Llun Ysgolion Ceredigion yn ailagor ar ôl y gwyliau
**IONAWR 17** Nos Fercher Talat Choudhri yn sôn am O Essex i Aberystwyth Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb am 7.30
**IONAWR 18** Nos Iau Recordio Dechrau canu, dechrau canmol (Arweinydd: Alwyn Evans) yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth am 6.30
**IONAWR 19** Nos Wener Dewi Hughes 'Digon o ryfeddod' Cymdeithas Lenyddol y Garn yn y festri am 7.30
**CHWEFROR 17-18** Dyddiau Sadwrn a Sul Pedair rownd gyn-derfynol Band Cymru (S4C) yng Nghanolfan y Celfyddydau am 2.30 ac 8.00 Tocynnau ar gael o 10.00 y bore dydd Llun 15 Ionawr trwy ffonio 02920 223456. Mwy o fanylion yn rhifyn Ionawr

## ENILLYDD

Enillydd y gystadleuaeth '**CD Newydd y Welsh Whisperer**' yw; **Owain Teifi Hughes,** Hafod y Gaseg, Pontrhydfendigaid, Ceredigion. Llongyfarchiadau iddo!


Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.


Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i gyfeillion a darllenwyr y Tincer. Yn ôl f'arfer ni fyddaf yn gyrru cardiau Nadolig eto eleni ond yn cyfrannu ari-an i elusen o'm dewis – eleni LATCH: elusen Canser Plant Cymru. www.latchwales.org/

**CERIS GRUFFUDD**
**(Golygydd)**




GWASANAETH GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH
Arolygon Diogelwch
Asesiadau Peryglon
Archwiliadau Damweiniau
Hyfforddiant
01970 820124
07709 505741


eich gwefan leol
www.trefeurig.org
your local website
newyddion etc. i / news etc. to:
golygydd@trefeurig.org
William Howells, Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch, Aberystwyth SY23 3EQ

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer mis Tachwedd 2017

£25 (Rhif 296) Shirley Rowlands, 42 Tregerddan
£15 (Rhif 284) Ceri Williams, Fron Deg, Llanddeiniolen
£10 (Rhif 250) Marian B Hughes, 14 Maes-y-garn, Bow Street

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tîm dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre pnawn Mercher Tachwedd 15. Diolch i'r aelodau sydd wedi ail ymaelodi a chroeso i'r aelodau newydd.

### Galwad Cynnar

Ar wahoddiad Ffrindiau Pantycelyn bydd **GALWAD CYNNAR** (Radio Cymru) yn dod i recordio rhaglen ar **nos Fercher, 28 Chwefror** yn Y Morlan, Aberystwyth. Drysau ar agor - 6.15 (recordio 7yh - tan tua 8.30)

**Croeso i Bawb** - mynediad am ddim

Os hoffech ofyn cwestiwn i'r panel, a allech chi ei anfon i Bethan (bethan.crwth@gmail.com) erbyn Chwefror 3ydd os gwelwch yn dda.

### Cerddorion Ifanc Dawnus

Diddanwyd Clwb Rotari Aberystwyth yn ddiweddar gan dalentau lleol a oedd yn cystadlu yng Nghystadleuaeth Cerddorion Ifanc y Rotari. Yn ôl y beirniaid, Eirwen Hughes a Louise Amery, roedd y safon yn eithriadol o uchel. Yn y lluniau gwelir y cystadleuwyr offerynnol - Dylan Skym, Sophie Nicholas, ( y ddau o Aberystwyth), Mali Lewis (Llan-non) ac Erin Hassan (Y Borth) yn sefyll o flaen Louise Amery, Martin Davies ac Alan Wynne Jones. Yn yr ail lun gwelir y cystadleuwyr lleisiol gydag Eirwen Hughes - Lucille Richards (Penrhyn-coch) a Guto Ifan Lewis (Llan-non). Yr enillwyr oedd Erin Hassan (Offerynnol) a Guto Lewis (Lleisiol). Pob hwyl iddynt yn y rownd nesaf ym mis Ionawr. Diolch i Cerdd Ystwyth am eu nawdd hael.

## CASGLIADAU'R GWASTRAFF Y NADOLIG A'R CALAN

Bydd casgliadau yn cael eu darparu ddiwrnod yn hwyrach i'r diwrnodau arferol ar yr wythnosau sy'n dechrau 25 Rhagfyr 2017 a 1 Ionawr 2018

## 30 MLYNEDD YN ÔL



Mr a Mrs Ieuan Jenkins yn cyflwyno'r siop fach i adran y babanod yn Ysgol Gynradd Penrhyn-coch. Yn y llun gwelir hefyd Mrs L. Williams, yr athrawes (o *Dincer* 1987). Mae'r siop yn dal yn y dosbarth ac yn cael ei defnyddio.





# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN



Merched y Wawr Melindwr

**Merched y Wawr Melindwr**
Tywydd gaeafol oedd yn ein disgwyl nos Fercher 6ed Rhagfyr wrth i ni droi allan i ddathlu yn gynnar y Nadolig yng Ngwesty'r Richmond. Croeso cynnes oedd yn ein disgwyl gyda byrddau o aelodau yn mwynhau cymdeithasu. Rhoddwyd y bendith gan Delyth Davies ac ar ôl cinio Nadolig gyda twrci a phwdin roedd amser i Lynne Davies ein Llywydd cyflwyno ein gwraig wadd Sara Gibson.

Yn wreiddiol o Gaerdydd gyda chysylltiadau yn Nhregaron mae yn byw ym Mhenrhyn-coch. Cafodd ysgoloriaeth i Goleg Prifysgol Aberystwyth; roedd â ddiddordeb mewn ysgrifennu a chasglu straeon pobol arweiniodd i swydd gyntaf yng ngwlad Pŵyl; yna i teithio i wahanol wledydd cyn dychwelyd i Gaerdydd a gweithio i Radio Cymru lle bu yn Newyddiadwraig ers ugain mlynedd.Wrth roi hanes ei gwaith roedd yn amlwg bod pethau technegol wedi symud ymlaen am y gore. Hefyd yn amlwg bod y person tu ôl y stori yn straen weithiau.

Diolchodd Nia Davies i Sara ac i dîm Gwesty'r Richmond am eu cyfraniad at noson ddymunol iawn. Margaret Stevens enillodd y wobr wrth ddewis eistedd yn y man a'r lle.

Edrychwn ymlaen mis Ionawr i gael cwmni Ruth Jèn. Noder y dyddiad- nos Fawrth Ionawr 9fed 2018.

**Sioe Capel Bangor**
Cynhaliwyd cinio Sioe yn y Clwb Penrhyn-coch ganol mis Tachwedd. Croesawyd pawb yn gynnes gan Rhydian Davies a'r gŵr gwadd oedd Wyn Evans, aelod gweithgar iawn o Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr. Cafwyd araith ddiddorol iawn ganddo. Roedd y Sioe eleni eto wedi bod yn lwyddiant mawr er gwaethaf y tywydd gwael yn y bore ac mi 'roedd y nifer a fynychodd ar y dydd yn ffafriol iawn.

Roedd yna gystadlu brwd wedi bod at y cae ac yn y babell. Diolchodd Rhydian yn fawr iawn i aelodau y Pwyllgor sydd yn Cyfarfod yn y Druid, Goginan, ar yr ail nos Fawrth o bob mis am eu ffyddlondeb ac i bawb sydd yn cynorthwyo ar y diwrnod.

**Newid Lle**
Mae "Y Maes" (Maesbangor Arms) o dan reolwraig newydd, ers dechrau y mis. Mrs Margaret Phillips yw y deiliad newydd, a arferai redeg Tafarn Tynllidiart. Rhwydd hynt iddi yn ei lleoliad newydd.



**Gofal yn y Cartref**
Yn ddiweddar cafwyd gwybodaeth y byddai Mr Barry Jones, Y Felin, ac yntau yn gaeth i'w gartref, yn gorfod symud allan. Hynny oherwydd, fod y cwmni preifat "Affinity Homecare" bellach yn peidio a chynnig gofal yn y cartref.

Mae yn effeithio tua chwe chlaf yng ngogledd Ceredigion, ac mae'n debygol y gall Barry fod yn un, bydd yn rhaid symud allan o'r sir, i Dywyn neu'r Drenewydd, gan nad oes lleoliad arall sy'n addas. Dymunwn i Barry pob cymorth i'w gadw yn ei gartref, a chofion cynnes iddo oddi wrth bawb yn y pentref.


**Bedydd**
Bedyddiwyd Jac, ddiwedd mis Tachwedd yn Eglwys Dewi Sant, mab bychan Sarah a Phillip Hughes, 9 Stad Pen-llwyn. Pob dymuniad da ar eu cyntaf-anedig.

**Y goeden Nadolig**





'Roedd yna gynnwrf mawr y tu allan i'r siop leol ar yr 28ain o Dachwedd, pryd y rhoddwyd goleuadau y goeden Nadolig ymlaen gan y Cynghorydd Rhodri Davies. Yno hefyd oedd plant yr ysgol yn canu yn swynol dros ben, yn creu naws y Nadolig.Yna croesawyd pawb i mewn i'r siop, am lasiad o win a mins peis, a diodydd siocled poeth i'r plant.Diolchodd Mel a Dan i bawb am eu presenoldeb, ac am eu cefnogaeth drwy'r flwyddyn. Dyma eu ffordd hwy o ddweud diolch.




**180 mlynedd yn ôl**
Cofeb o flaen y capel ym Mhen-llwyn i Lewis Edwards, sylfaenydd a Llywydd cyntaf Athrofa'r Bala (1837-1887). Ganwyd ym Mhwllcenawon yn 1809.
Llun: Iestyn Hughes

# Myfyrdod y Nadolig

Y Nadolig yw fy hoff adeg o'r flwyddyn. Treulio amser gyda theulu a ffrindiau, canu carolau, addurno'r tŷ, blasu gwahanol fwydydd, a bydda i'n dal i agor ffenestri'r calendr adfent un wrth un trwy fis Rhagfyr. Wythnosau o gyffro a pharatoi at y diwrnod mawr.

Roedd hyn hefyd yn wir am y Nadolig cyntaf. Dyma un o broffwydoliaethau'r Hen Destament: 'Canys bachgen a aned i ni, mab a roed i ni.' Pwy oedd y bachgen fyddai'n cael ei eni? Neb llai na Iesu Grist. Rhyw 700 mlynedd cyn i Iesu gael ei eni, mae Eseia yn dweud wrth y bobl y bydd hyn yn digwydd, ac maen nhw'n disgwyl amdano. Yn y Testament Newydd daw'r disgwyl i ben: 'ganwyd i chwi heddiw yn nhref Dafydd Waredwr, yr hwn yw'r Meseia, yr Arglwydd.' Mae'r plentyn wedi cyrraedd. Mae Iesu Grist wedi dod i'r byd, mae'r holl ddisgwyl wedi dod i ben.

A bod yn onest, weithiau mae'n well gen i'r wythnosau cyn y Nadolig na'r diwrnod ei hun, pan fydd boliau pawb yn llawn, y pocedi'n wag, a'r cwmnïau'n hyrwyddo bargeinion. A'r diwrnod wedyn mae'r bwyta'n iach a'r ymarfer corff yn dechrau, a'r cyfri ceiniogau. Dwi ddim eisiau anghofio'r Nadolig a'i holl gynhesrwydd a mwynhad.

Nid felly roedd hi'r Nadolig cyntaf. Oedd, roedd disgwyl mawr am eni'r bachgen a dathlu pan aned Iesu. Ond nid dyna'r diwedd. Ar ôl ymweld â'r stabl, wnaeth y bugeiliaid ddim troi at ei gilydd a dweud, 'Wel, dyna ni 'te, awn ni'n ôl at y defaid.' Ond yn hytrach, 'Dychwelodd y bugeiliaid gan ogoneddu a moli Duw.'

Dechrau'r dathlu yw'r Nadolig, nid y diwedd. Cafodd Iesu ei eni am reswm – nid er mwyn i ni roi a derbyn anrhegion, nid er mwyn i ni fwyta gormod o fwyd neu wario gormod o arian, nac er mwyn i ni addurno'r tŷ. Dywedodd Eseia hefyd fod Iesu wedi dod i roi goleuni i bobl sy'n cerdded mewn tywyllwch; marw i gymryd y gosb dros ein pechodau ni. Dywed hefyd y bydd y dathlu am hynny yn para byth: 'Ni bydd diwedd ar gynnydd ei lywodraeth'.

Mae'n siŵr fod nifer ohonom wedi clywed y gân, 'I wish it could be Christmas ever day' eleni. Mewn gwirionedd, fe ddylai hi fod yn Nadolig bob dydd; fe ddylen ni gofio bob dydd am enedigaeth Iesu, yn ogystal â'i farwolaeth a'i atgyfodiad. Does dim byd o'i le mewn mwynhau'r Nadolig, ond gadewch i ni ddathlu am y rhesymau cywir.

**Lois Dafydd**

*Mae Lois Dafydd, Bow Street, yn Is-gynhyrchydd gyda Boom Cymru yng Nghaerdydd. Estynnwn ein cydymdeimlad â hi a'r teulu ar golli ei mam-gu ers gyrru y myfyrdod i ni.*

# Taith Gerdded Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru



Cynhaliwyd taith gerdded Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru o gwmpas pentref a phlwyf Elerch Bont-goch yng ngogledd Ceredigion ar brynhawn Dydd Sul, 26 Tachwedd, dan arweiniad Richard Huws. Gan ddechrau o eglwys hanesyddol St. Pedr, aethpwyd drwy'r pentref i gyfeiriad Penrhyn-coch cyn troi ger Tan-y-bwlch i fynd heibio Carregydifor, a chroesi'r afon Leri ger rhaeadr y Rhydgoch. Cerddwyd ar y ffordd fawr heibio Plas Cefn Gwyn i gyfeiriad Cwmere hyd at Bontbrengeifr a hen gapel Sion (Fronallt), cyn anelu am unigeddau Cwm Tŷ-nant. Ar ôl mynd heibio olion Cwmere Bach, aethpwyd drwy'r goedwig cyn dod ar draws adfeilion tyddynnod Pantycelyn, Rhydyronnen a Llwynbedw. Dychwelwyd heibio Moelgolomen a Thŷnewydd, ac ymlaen at Bwlchrosser cyn cyrraedd eto i'n man cychwyn. Taith o dair awr a 13,000 o gamau! Er yn wlyb dan draed cafwyd prynhawn sych.

Mae modd dilyn y daith yn fanylach yn llyfr diweddar Richard, Enwau tai a ffermydd Bont-goch (Elerch), sydd ar gael mewn nifer o siopau llyfrau Cymraeg a siopau lleol, pris £9.99, neu drwy wefan Cyngor Llyfrau Cymru: www.gwales.com

Os am ymuno â Chymdeithas Enwau Lleoedd Cymru cysyllter gydag Angharad Fychan ar angharad.fychan@gmail.com £10 yw'r tâl aelodeath blynyddol.

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
01970 828312

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
lindagriffiths01@btinternet.com

## O'r Cynulliad Elin Jones

Roedd 2017 yn flwyddyn ddiddorol a phrysur, ac un o'r uchafbwyntiau oedd gweld canlyniad yr Etholiad Cyffredinol sydyn ym mis Mehefin, pan etholwyd Ben Lake, Aelod Seneddol ieuengaf Cymru, a llais newydd dros Geredigion yn San Steffan. Mae'r misoedd cychwynnol hyn o weithio gyda'n gilydd dros Geredigion wedi bod yn ffrwythlon, a disgwyliaf ymlaen at gydweithio'n bellach dros y blynyddoedd sydd i ddod.

Mae ystod eang o ymgyrchoedd wedi bod ar waith, gan gynnwys sicrhau bod darpariaeth Band Eang ar draws y sir yn gwella, cydweithio gyda gwirfoddolwyr yr RNLI i geisio arbed israddio'r bad achub yng Ngheinewydd, a phwyso ar Gyngor Sir Ceredigion i sicrhau bod cynllun hirdymor ar gyfer gwasanaethau i'r henoed yn ein sir. Rwyf hefyd wedi gweithio gydag etholwyr i ddwyn pwysau ar y Bwrdd Iechyd i gryfhau gwasanaethau yn y clinig llygaid yn Aberystwyth ac i ddychwelyd gwasanaethau clinig amrywiol i Llambed.

Fel pob blwyddyn, fe fu nifer o golledion i'n cenedl ac i Geredigion. Yn ddiweddar, fe fu farw cyn-faer Aberteifi, Melfydd George. Roedd ef yn wladwr ac yn wladgarwr, yn gymeriad annwyl ac yn llawn direidi.

Roedd hi'n fraint i ymuno â Merched y Wawr i ddathlu 50 mlynedd o'r mudiad, ac wrth gwrs roedd cynnal arddangosfa Dathlu'r Aur yn y Cynulliad Cenedlaethol yn gyfle gwych i groesawu cymaint o aelodau o Geredigion i'r Senedd.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yng Ngheredigion.



Elin Jones gydag aelodau Merched y Wawr o Geredigion, wrth iddynt ymweld â'r Cynulliad Cenedlaethol yn ddiweddar i lansio arddangosfa 'Dathlu'r Aur', i ddathlu 50 mlynedd Merched y Wawr. Yn y llun mae: Cynthia Edwards o Lanafan, Morwen Thomas o Lanbedr Pont Steffan, Glenys Morgan o Benrhyn-coch, Elin Jones Aelod Cynulliad Ceredigion, Sharon Jones o Benrhyn-coch, Enid Evans o Felin-fach a Tegwen Morris, Cyfarwyddwraig Cenedlaethol Merched y Wawr.

## Nadolig 2017

(a'm merch yn llawn cyffro, a'm rhieni'n anhwylus)

Un Rhagfyr daeth i'n trigfan
dwy ŵyl a'u hwyl ar wahân.
I'w degoed, gwn daw dygwyl
a bydd, drwy'i hawydd a'i hwyl,
yr hud yn mynnu parhau,
yn antur 'mysg presantau.

Ond i ni 'leni, mae'r lol
yn anodd o wahanol,
a'n tŷ'n cyfannu dau fyd
o eithafion; daeth hefyd
ysictod fel cysgod cudd
heibio i ni'n ddirybudd.
Er y golau, daw'r gwelwi
a'r gwanhau, er ei gwên hi,
gŵyl y gân a gŵyl y gwyll,
y gwanio a'r ymgynnull.

Drwy'r oerfel yn dawel daeth
Nadolig ein deuoliaeth.
**Anwen Pierce**

SIOP
SGIDIAU GWDIHW
Shan Jones
8 Ffordd Portland,
Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092
GWASANAETH
GOFAL TRAED
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig
ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.

## ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

**Cydymdeimlad**
Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â theulu Tyn Wern ar farwolaeth mam Glenys yn ystod y mis diwethaf.

**Pen blwyddi**
Dathlodd Nancy Evans, Tŷ Poeth, ben blwydd arbennig yn ystod y mis diwethaf, a bydd Gerwyn Ellis, Dolhaidd, yn dathlu carreg filltir arbennig dydd Nadolig. Dymuniadau gorau i chi eich dau.


**Diolch**
Hoffai Nancy ddiolch yn fawr i bawb am y cardiau, anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniodd ar achlysur ei phen blwydd, mae yn gwerthfawrogi y cyfan yn fawr iawn.

**Llwyddiant**
Llongyfarchiadau i Dafydd a Sian Morris Neuadd Parc ar eu llwyddiant yn ennill y wobr gyntaf gyda'u hebol Adran A yn y Ffair Aeaf yn Llanelwedd.


Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda


# Cwis Nadolig Y Tincer

## Cyfle i ennill gwobrau - diolch i S4C am becyn a'r gweisg am y llyfrau










Cyfle i gael ychydig o hwyl ac ennill gwobr! Pa mor dda ydych chi'n adnabod S4C?
Anfonwch eich atebion i gyrraedd cyn hanner dydd ar **Ionawr 10, 2018** at: Gareth William Jones, Hafle, Penrhiw, Bow Street, Ceredigion SY24 5BA
neu os dymunwch at gwjones99@aol.com. Nodwch pa wobr yr hoffech ei hennill.

1. Owen Edwards oedd prif weithredwr cyntaf S4C ac Owen Evans yw prif weithredwr newydd S4C. Ond ym mha dref yng Nghymru gafodd y ddau eu haddysg cynnar? (a) Aberystwyth neu (b) Bangor neu (c) Caerdydd
2. Pa wybodaeth mae Chris Jones yn ei roi i ni ar S4C ers 22 mlynedd?
(a) gwybodaeth am y Newyddion neu (b) gwybodaeth am chwaraeon neu (c) gwybodaeth am y Tywydd.
3. Pwy sy'n cyflwyno'r rhaglen Cefn Gwlad ar S4C?
(a) Alun Elidyr neu (b) Dai Jones neu (c) Gerallt Pennant
4. Beth oedd teitl y ddrama ar S4C oedd yn stori drosedd am waed, cariad a pherthynas teulu yn nhref ddiwydiannol Port Talbot?
(a) Un Bore Mercher neu (b) Pum Niwrnod neu (c) Bang
5. Ar ba raglen ar S4C y byddech chi'n debygol o weld Elin Fflur ar soffa?
(a) Rownd a Rownd neu (b) Heno neu (c) Cyw
6. Beth yw teitl cyfres ddogfen ar S4C sy'n dilyn myfyrwyr meddygol ym Mhrifysgol Caerdydd yn gweithio mewn ysbytai o gwmpas Cymru?
(a) Doctoriaid Newydd neu (b) Doctoriaid Yfory neu (c) Doctoriad y Dyfodol
7. Beth yw enw'r gyfres ar S4C ble mae Huw Foulkes yn ceisio cadw trefn ar Aled Hall ac Elin Manahan Thomas?
(a) Wyt ti'n Gêm? neu (b) Stwnsh neu (c) Cythrel Canu
8. Pa fath o gelwydd mae Nia Roberts am ei glywed ar S4C?
(a) Celwydd Golau neu (b) Celwydd Noeth neu (c) Rhaffu Celwydd

# 'Plant mewn perygl o golli geiriau Cymraeg am Fyd Natur'

Mae'r awdur adnabyddus a phoblogaidd Caryl Lewis, Goginan, wedi rhybuddio bod plant y dyddiau hyn mewn perygl o golli geiriau a thermau Cymraeg o fyd natur. Daw'r sylwadau yn sgîl cyhoeddi ei llyfr newydd i blant, *Merch y Mêl*. Arluniwyd y gyfrol gan Valériane Leblond, Llangwyryfon.

Yn *Merch y Mêl*, caiff Elsi ei gadael ar stepen drws ei mam-gu. Mae Elsi mor dawel â'r eira nes i Mam-gu ddangos cyfrinach iddi ar waelod yr ardd – cwch gwenyn. Trwy ddilyn y gwenyn, a sylwi ar bopeth sy'n digwydd yn yr ardd yn ystod y flwyddyn, daw Elsi i garu pob tymor yn ei dro.

'Fe ysgrifennais i'r gyfrol yn rhannol er mwyn dysgu plant am dymhorau ac enwau'r byd natur sydd o'n cwmpas a geiriau fel *bysedd y cŵn*, *clychau'r gog*, *cynffonnau ŵyn bach* ac ati.' eglurodd Caryl, 'Dyw plant ddim yn cael dysgu enwau blodau a choed ac ati bellach fel ers talwm,'

'Ond cefais fy ysbrydoli hefyd gan fy mhrofiad o gadw gwenyn ar ein fferm' ychwanegodd, 'Bellach mae fy merch, Gwenno, yn dysgu am gadw gwenyn hefyd yn union fel Elsi!' ychwanegodd. 'Mae'n bwysig iawn bod yn ymwybodol o'r byd sydd o'n cwmpas, a dyle plant ac oedolion wybod a deall mwy am natur a'i berthynas gyda phopeth' ychwanegodd Valériane.




Mae'r llyfr clawr caled, sydd yn addas ar gyfer plant 4 i 8 oed, yn gyfrol i'w thrysori ac yn gyfle i blant ddysgu enwau blodau ac am wenyn a byd natur drwy'r tymhorau yn stori annwyl Caryl Lewis a lluniau bendigedig Valériane Leblond. Dyma'r ail dro i Caryl a Valériane gydweithio, yn dilyn llwyddiant *Sgleinio'r Lleuad* a gyrhaeddodd restr fer Gwobr Tir na n-Og 2015.

'Roeddwn yn falch iawn o gael cydweithio gyda Caryl unwaith eto' meddai Valériane, 'Mae'r stori yma yn berffaith i mi – rwy'n hoff o ddarlunio cefn gwlad, tymhorhau a byd natur ac rwy'n agos iawn gyda fy Mam-gu hefyd!'



# PENRHYN-COCH

**Suliau**
**Horeb - gweler hefyd www.trefeurig.org/index.php**

*Rhagfyr*

24 10.00 Oedfa Nadolig Y Parchg Peter Thomas
25 8.00 Cymun fore'r Nadolig Y Parchg Peter Thomas
31 10.30 Y Parchg Peter Thomas

*Ionawr*

7 2.30 Y Parchg Peter Thomas Oedfa gymun
14 10.30 Y Parchg Peter Thomas Oedfa deuluol
21 10.30 Clwb Sul
2.30 Sion Meredith
28 10.30 Festri - Clwb Sul ar y cyd yn Horeb
Capel - oedfa - Dr Rhidian Griffiths

**S. Ioan**
Noswyl Nadolig 3.00 Gwasanaeth y preseb a charolau i'r teulu
11.00 pm Cymun canol nos

**Cinio Cymunedol Penrhyn-coch**
Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 10 a 24 Ionawr. Cysylltwch â Job McGauley 820 963 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

**Bardd Cadeiriol**
Llongyfarchiadau i'r Parchg Judith Morris, Berwynfa, ar ennill cadair Eisteddfod Abergorlech nos Sadwrn 25 Tachwedd am delyneg. Roedd



y gadair fechan yn rhoddedig gan Gyngor Cymuned Llanfihangel Rhos-y-corn dan gadeiryddiaeth Mr Rocco Sisto.

**Llwyddiant yn y Sioe**
Llongyfarchiadau enfawr i Tom a Bethan Evans (dirprwy bennaeth Ysgol Penrhyn-coch) am ennill dosbarth Penfrith Bryniau Cymru Ŵyn Mynydd Cymreig Pur – yn y Ffair Aeaf! Yn y llun gwelir Meia gyda'i thad.



**Cymdeithas y Penrhyn**
Peredur Lynch oedd y siaradwr gwadd yng Nghymdeithas y Penrhyn nos Fercher, 15 Tachwedd. Mae wedi cyhoeddi ei gyfrol gyntaf o farddoniaeth eleni, dan y teitl *Caeth a Rhydd*, er iddo fod yn barddoni ers oedran cynnar iawn. Soniodd fel y byddai'n mynd at fardd lleol pan oedd yn byw yng Ngharrog yn ei arddegau i ddysgu cynganeddu ac enillodd y Gadair yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn 1979.

Colli'i dad chwe mlynedd yn ôl oedd un ysgogiad i ailgydio mewn barddoni ac mae deg cerdd yn y casgliad yn deillio o roi trefn ar bethau ei dad ac yn mynegi teimladau personol mewn perthynas â'r golled.

Mae cerddi ysgafn yn y gyfrol hefyd a chawsom hanes ysgrifennu cerdd ddychan am ei Lada, un o'i geir cyntaf, yn ogystal â chyflwyniad i rai o'i gerddi mawl a marwnad fel y gerdd i'r Athro Gwyn Thomas a fu'n gyd-weithiwr iddo ym Mhrifysgol Bangor.

Roedd hi'n noson ddifyr iawn yn cyfuno'r dwys a'r dychanol. Mae'r gyfrol *Caeth a Rhydd* gan Peredur Lynch wedi ei chyhoeddi gan Wasg Carreg Gwalch.

**Croeso**
Croeso i Richard a Pauline Lucas a'r plant i Dôl Helyg o Bow Street. Mae Richard yn uwch reolwr elusen Cymdeithas Gofal a Pauline yn gweithio yn Adran Addysg y Cyngor, ac yn glerc Cyngor Cymuned Geneu'r-glyn.

Hefyd croeso nôl i Glan Seilo i Dwynwen Huws a'r plant.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn â Miriam Garratt a'r teulu, Ger-y-llan, ar farwolaeth ei mam yn ddiweddar ac a Ceri a Dylan a'r teulu, Dôl Helyg, ar farwolaeth tad Ceri – Alun Jones, Llwynglas, Tal-y-bont.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Nicole a Jose, Maesyfelin ar enedigaeth merch fach - Bela Sofia, chwaer fach i Iwan a Mari a wyres arall i Raymonda a Mike Roberts.

**Urdd y Gwragedd, Eglwys St Ioan**
Noson yng nghwmni Hilary Peters o Salem gafwyd y mis hwn. Maen archifydd i gasgliad cenedlaethol ystad Gogerddan yn y Llyfrgell Genediaethol. Rhoddodd fraslun o hanes y Prysiaid o 1584 - i fyny i 1962 gyda marwolaeth Syr Pryse Loveden Saunders Pryse. Dangoswyd cryn ddiddordeb gan fod y Prysiaid wedi bod ynghlwm â Eglwys Sant Ioan a'r ysgoldy ac mae gweddillion rhai ohonynt yn y fynwent. Diolchwyd i Hilary am ei gwaith gyda'r casgliad.



Cylch Meithrin Trefeurig yn barod am eu cyngerdd Nadolig



Disgyblion a rhieni Ysgol Penrhyn-coch fu yn canu carolau brynhawn Sul 10 Rhagfyr gan godi dros £200 i brynu adnoddau i'r ysgol.

**Pêl-droed Penrhyn-coch**
Gohiriwyd unrhyw gêmau Tîm Menywod.

**Tim 1af**
*Cynghrair*
11 Tachwedd Porthmadog 3 Penrhyn-coch 1
25 Tachwedd Cyffordd Llandudno 1 Penrhyn-coch 1
*Cwpan Cymru*
Seintiau Newydd 6 Penrhyn-coch 0

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Sharon Jones a Glenys Morgan, y ddwy wedi bod yn llwyddiannus yn Sioe Aeaf Llanelwedd unwaith eto.

**Gwellhad buan**
Dymunwn wellhad buan i Molly Herring sydd ar hyn o bryd yn yr ysbyty ar ôl cwympo a thorri ei choes.

Hefyd gwellhad buan i Euronwy James sydd wedi cael triniaeth yn yr ysbyty ar ôl cwympo. Ac i'w phriod, Dr James, sydd ar hyn o bryd yn cael hoe bach mewn cartref yng Nghaernarfon.

**Sioe Penrhyn-coch**
Dydd Sul 24ain o Dachwedd fe gynhaliwyd cinio blynyddol Sioe Penrhyn-coch yn y Marine amser cinio a threuliwyd rhai oriau yn mwynhau gyda'n gilydd. Fe ddaeth Meleri ein Llywydd yn y sioe eleni, i ymuno â ni. Diolchodd Dai Rees Morgan i bawb a fu yn rhan o'r sioe eleni ac am eu gwaith o wneud y sioe yn un llwyddiannus unwaith eto. Diolchodd i Ann James fel ysgrifennydd am ei gwaith diflino fel arfer. Ategwyd geiriau Dai gan Mairwen yn ei dull arferol drwy benillion o'i gwaith. Prynhawn dymunol dros ben.

**Merched y Wawr Penrhyn-coch**
Nos Iau 7fed o Ragfyr croesawodd Mair Evans bawb i'r cyfarfod. Fe aed trwy y busnes a'r ohebiaeth ddaeth i law yn ystod y mis. Amryw wedi ymddiheuro eu bod yn methu bod yn bresennol, rhai oherwydd salwch. Dymunwyd gwellhad buan i bawb. Aed ymlaen wedyn i groesawu ein gŵr gwadd, sef Meirion sydd a'i siop fwtsiar ym Mhen-y-Garn, ac yn byw gyda'i deulu ym Mhenrhyn-coch. Roedd wedi dod a hanner oen ganddo ac fe fu yn torri hwnnw lan, ac ar yr un pryd yn dweud beth oedd y gwahanol rhannau o'r oen a hefyd sut i'w coginio a chael y gorau allan o'r rhannau cig. Fe gafwyd y cyfle ar y diwedd i brynu y cig. Diolchwyd i Meirion gan Mair Evans ac yna cafwyd cwpanaid a mins peis a tynnu'r raff l i ddiweddu'r noson.

**Newid aelwyd**
Yn ystod hanner tymor ffarweliwyd â Catrin, Trefor a'r plant o Cwm Pennant wrth iddynt symud i Dre'r-ddôl a chanol Rhagfyr croesawn Manon, John ac Elen Fflur yno.

**Pêl-droediwr ifanc**
Llongyfarchiadau i Jac Davies, Caernarfon, ŵyr Non a Colin Evans, 'Refail Fach, ar gael ei ddewis i hyfforddi gydag Academi pêl-droed Manchester City. Dilyn ôl traed ei dad-cu!



# Taith Alwen i Batagonia 2017

Dechrau mis Tachwedd 2016, cefais wybod fy mod wedi fy newis i fod yn un o 24 o bobl ifanc ar draws Cymru fyddai'n mynd ar daith fythgofiadwy i Batagonia gyda'r Urdd. Felly, ar ôl blwyddyn o baratoi a chodi arian, ar yr 21ain o Hydref 2017, daeth y diwrnod mawr, a bu i mi gychwyn ar y daith 15 awr i Buenos Aires, yr Ariannin. Cefais fy synnu'n syth wrth gyrraedd Buenos Aires; roedd yr awyrgylch yno'n hollol wahanol i beth oeddwn i'n gyfarwydd ag ef, fel merch fferm. Roedd y ddinas yn llawn prysurdeb, â cheir a phobl yn llifo i bob cyfeiriad, fodd bynnag bu i mi weld ychydig o ddiwylliant yr Ariannin yn syth bin, gan i ni ymweld â sioe Tango a nifer o adeiladau pwysicaf y brifddinas e.e. eu Senedd a'r Eglwys Gadeiriol.

Felly, roedd hi'n brofiad rhyfedd iawn rai dyddiau'n ddiweddarach wrth i ni deithio i Batagonia, i ardaloedd Trevelin ac Esquel. Roedd yr ardaloedd hyn yn llawer mwy tebyg i adref, yn drefi bychan, gwledig, ag ymdeimlad cryf o gymuned yno. Bu i ni dreulio bron i bythefnos yn y ddwy ardal yma, gan wirfoddoli a chymdeithasu yn yr ysgolion cynradd ac uwchradd lleol, ynghyd â chynorthwyo gyda chymdeithasau Cymraeg yr ardal, drwy gynnal amryw o gyngherddau ac ymweld â thrigolion lleol. Yn amlwg, cefais hefyd siawns i brofi diwylliant y Wladfa, gan flasu asado draddodiadol a'i wylio'n cael ei baratoi allan yn yr awyr agored. Yn ychwanegol, bu i ni ymweld ag un o Barciau Cenedlaethol y wlad, Amgueddfa'r Mimosa, ynghyd â Phorth Madryn a Phunto Tombo. Er bod yr ardal ychydig yn fwy cyntefig, roedd nifer o bethau'n debyg iawn yno i beth sydd i'w weld yng Ngheredigion. Roedd ffermydd bychain yng nghysgod yr Andes, a pheth rhyfedd iawn oedd medru cynnal sgwrs yn y Gymraeg gyda thrigolion yr ardal, â ninnau miloedd o filltiroedd o Gymru fach. Cefais brofiad o gystadlu yn Eisteddfod y Wladfa, oedd yn dilyn yr un strwythur â'n heisteddfod ni. Yn wir, gwelais gystadlaethau canu, llefaru a chorau yn y Gymraeg, a hyd yn oed cystadlaethau dawnsio gwerin!

Cefais amser anhygoel yn y Wladfa, ac roedd hi'n agoriad llygad i weld cynifer o'n traddodiadau ni wedi'u mabwysiadu gan drigolion ardaloedd Trevelin ac Esquel. Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd neu a gynorthwyodd gyda'r paratoadau! Profiad hollol fythgofiadwy ac amhrisiadwy!!

**Alwen Morris, Llanddeiniol ac Ysgol Penweddig**



Neuadd Dewi Sant, Trelew




Arwydd yn Nhrevelin

# BOW STREET

**Capel y Garn**
**Gweler hefyd www.capelygarn.org/**
**10 a 5**

*Rhagfyr*
24 Bore yn unig – Gweinidog
25 9.00 Oedfa Deulu undebol – Gweinidog
31 Oedfa gymun undebol – Gweinidog

*Ionawr*
7 Elwyn Pryse
14 Rhidian Griffiths
21 Bugail (Bore – Cymun)
28 Oedfa'r ofalaeth – Bugail

**Merched y Wawr Rhydypennau**
Ar nos Lun y 13eg o Dachwedd cawsom gwmni aelodau cangen Melindwr i ymuno â ni i weld nwyddau "Pethau Olyv". Busnes gweddol newydd dwy nyrs a oedd wedi ymddeol, sef Olive ac Yvonne yw "Pethau Olyv". Ar ôl iddynt gyflwyno eu hunain a'u nwyddau mewn ffordd ddifyr iawn cafwyd cyfle i brynu bagiau, gemwaith ac eitemau ffasiwn. I orffen cafwyd lluniaeth wedi ei baratoi gan y pwyllgor.Yna derbyniwyd y diolchiadau am noson ddifyr. Enillwyr y raffl oedd Gwenda Edwards, Gweneira Williams a Ray Edwards.

**Neuadd Rhydypennau**
Gwych oedd gweld y neuadd yn llawn i'r ymylon nos Wener 10fed o Dachwedd, gyda phobl yn cael eu diddanu gan gôr Meibion y Mynydd o ardal Ponterwyd, ac yn mwynhau caws a gwin blasus. Nid cyngerdd sych mohono o gwbl, wrth i'r cantorion ffraeth greu noson o rialtwch. Llwyddodd Peter Leggett, Prifathro Ysgol Rhydypennau, i gadw trefn hynaws ar bawb ac fe gafwyd anerchiad diddorol iawn gan lywydd y noson, Meinir Lowry, am hanes cynnar y neuadd o'i chodi fel caban YMCA yn 1920 hyd at adeiladu'r neuadd bresennol yn 1953.

Roedd tad-cu Meinir yn un o'r prif rai a drefnodd i ddatgymalu'r caban a chludo'r darnau ar y trên yr holl ffordd o Ddoc Penfro i Bow Street yn 1920. Pan ddechreuodd yr 'YM' wegian yn y 1950au, roedd tad Meinir yn un o aelodau'r pwyllgor gweithgar a gododd y neuadd bresennol. Wrth i aelodau'r pwyllgor cyfredol geisio sicrhau y bydd adeilad gweddus yn y pentref er mwyn i ni ddathlu canrif ers sefydlu'r ganolfan bwysig hon i bobl Bow Street, roedd geiriau Meinir yn hwb i bawb.



Gan fod Margaret Roberts, Crud yr Awel, prif drefnydd y noson, wedi cael y lle i edrych – ac i redeg – fel y Ritz, mae gobaith i'r hen neuadd eto! Mawr yw ein diolch i bawb a gyfrannodd mor hael i'r achlysur, yn enwedig Gwyn a Janet Evans, Trefnwyr Angladdau CT Evans, prif noddwyr y noson. Llwyddwyd i godi'r swm sylweddol o £1,500 at ymgyrch gwella Neuadd Rhydypennau.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Dewi Evans, Alan, Davina ac Adrian, Bryncastell ar farwolaeth sydyn Pat Evans ar Dachwedd 24ain. Cynhaliwyd yr angladd dydd Iau Rhagfyr 7 yn Eglwys Sant Ioan, Penrhyn-coch; derbyniwyd rhoddion er cof tuag at Gartref Tregerddan.

Hefyd â theulu yr Athro Harold Carter, Maes y Garn, fu farw yr wythnos ddiwethaf. Bu'r Athro Carter yn Gyfarwyddwr Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear y Brifysgol tan ei ymddeoliad ym 1986. Roedd yn arbenigwr ar ddaearyddiaeth yr iaith Gymraeg a gellir darllen peth o'i waith yn Gymraeg yn *Y Gwyddonydd* ar wefan Cylchgronau Cymru @LLGCymru. https://t.co/p7yXdYILIr

Cydymdeimlwn â Elgan a Menna Davies a'r teulu, Maes Afallen, ar farwolaeth mam Elgan yn Aberystwyth ar Ragfyr 1af.



**Ysgol Sul**
Bu plant ysgol Sul y pentref yn brysur iawn yn gynharach yn y mis yn creu angylion hardd o gardfwrdd a phapur, a dynion eira smart, gan ddefnyddio darnau o bren o wahanol feintiau. Diolch i Rhian Benjamin am gynnal sesiwn arbennig o hwyliog.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Anita a Dylan Williams, Bryncastell, ar enedigaeth merch fach, Evie Gwen, ar Dachwedd 29ain; chwaer fach i Sofie, Liwsi a Cari.

Llongyfarchiadau hefyd i Arwel George a Lila Piette, Llys Hedd, ar enedigaeth ŵyr bach arall – yng Nghaerdydd y tro hwn. Ganwyd Gwydion Dyfed ar Dachwedd 19eg, mab bach i Emyr George a Sarah Watson a brawd bach i Cadi Mair.



Gweinyddion gwin Ritz-ypennau



**Bore Coffi Cymdeithas y Chwiorydd**
Bore Sadwrn olaf mis Tachwedd: amser agor dathliadau Nadolig Capel y Garn gyda Chlonc a Chwpanaid amheuthun yn y Festri. Y ddefod agoriadol ers rhai blynyddoedd bellach yw torri a rhannu cacen, a hynny'n symbol o'r rhannu sy'n gymaint rhan o ysbryd y Nadolig. Y gweinidog, y Parchg Watcyn James, gyflawnodd y weithred. Wrth ei gyflwyno diolchodd Cadeirydd y Chwiorydd yn gynnes i Gartref Tregerddan am roi'r gacen at yr achlysur unwaith eto. Yn ogystal â phrynu o'r stondinau llwythog o gynnyrch cartref o bob math a mwynhau cyfeillach lawen wrth y byrddau cafodd llawer amser i ddyfalu atebion i'r cwis lluniau oedd wedi ei baratoi gan Iestyn Hughes, sydd hefyd wedi tyfu yn arfer blynyddol. Roedd Merched y Gegin a Bwrdd Gruffydd Aled yn gydradd fuddugol eleni. Ar ddiwedd yr holl brysurdeb a gwneud y symiau gwelwyd bod dros £500 wedi dod i'r coffrau, i'w rannu'n gyfartal rhwng Beiciau Gwaed Cymru a Chapel y Garn.

Bu casgliad sylweddol o nwyddau o gartref y diweddar Mr John Rees, Talar Deg, ar werth yn ystod y bore er elw i Gapel y Garn. Diolchwyd yn gynnes i deulu Mr Rees gan Alan Wynne Jones, Ysgrifennydd yr Eglwys.

Dydd Mercher, Rhagfyr 6ed, bu aelodau Cymdeithas y Chwiorydd yn cyd-fwynhau cinio Nadolig yn y Wildfowler yn Nre'r-ddôl.







## Colofn **BEN LAKE** AS

Mae hi wedi bod yn fis Tachwedd prysur yng Ngheredigion, ac yn fis prysurach fyth yn Llundain. Dwi wedi teithio o Bontarfynach i Landysul, ac o Dre'r-ddôl i Aber-porth ac wedi treulio sawl awr ar y tren o Gaerfyrddin i Lundain.

Pleser oedd cael arwain fy nadl gyntaf yn Westminster Hall ar yr 28ain o Dachwedd, a hynny ar bwnc sy'n eithriadol o bwysig i Geredigion ac sy'n agos iawn at fy nghalon, sef dyfodol economi gwledig Cymru. Pwysleisiais yr angen i gydweithio, i gyd-ddychmygu, i gyd-gynllunio'r dyfodol ar draws pob sector - y sector Addysg Uwch, y sector amaethyddol, y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Gyda'n gilydd dwi'n ffyddiog y gallwn wneud gwahaniaeth i'n cymunedau a'n pobl.

Mae fy swyddfa newydd bellach wedi agor ei drysau yn Llambed. Mae croeso i chi alw heibio unrhyw bryd (Bryndulais, 67 Heol y Bont) neu os oes gennych ymholiad gallwch godi'r ffôn ar 01570 940 333.

Gyda thymor y Nadolig o'n blaenau, carwn ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr y Tincer.

**Gwreiddiau**
Yn ystod yr hydref dechreuwyd cynnal grŵp *Gwreiddiau*. Cyfarfod anffurfiol ydyw sy'n dod ynghyd, fel arfer, ar fore dydd Iau yng Nghapel y Garn. Yr ydym yn cyfarfod am baned a chlonc tua 10:15 ac yn gorffen ein trafodaethau yn brydlon am 11:30.

Mae'n cyfarfod yn gyfle i rannu profiad, i ddeall ein profiadau ac i adnabod 'gwreiddiau' ein ffydd yn well. Ni all coeden afalau heb wreiddiau ddwyn ffrwyth. Ac er i'r goeden gael ei thocio a'i thorri, os bydd ei gwreiddiau'n gadarn fe fydd yn tyfu'n ôl.

Felly, beth am ymuno efo ni? Does dim y fath beth â chwestiwn ffôl, neu gyfraniad gwirion! Fydd yna ddim pwysau ar neb i siarad os ydynt yn swil. Yr ydym yn awyddus i anrhydeddu'r 'chwilio' sydd yn ein calonnau bob un, a hynny er mwyn canfod y bywyd sydd yn Iesu Grist.

Byddwn yn ailgychwyn wedi'r Nadolig ar 11eg o Ionawr. Ac fe fyddem oll yn falch o'ch cwmni.
*Watcyn James*




Gareth Owen, a fu'n cyflwyno'i gyfrol *Rhyw LUN o Hunangofiant*, sef golwg ar ei fywyd drwy lygad ei gelf, yng Nghymdeithas Lenyddol y Garn nos Wener, 17 Tachwedd.




Llongyfarchiadau i Rob Pugh, Maes Ceiro, redodd ras 10k Aberystwyth am y tro cyntaf yn ddiweddar gan godi £550 i Gronfa Gofal Canser Tenovus.



Dyma rai o blant Cylch Meithrin Rhydypennau wedi gwisgo yn eu pyjamas ar gyfer Diwrnod Plant Mewn Angen. Casglwyd deg punt tuag at yr achos.

## *Llythyr*

Annwyl Ddarllenwyr,
Ydych chi'n nabod rhywun yn eich ardal chi sy'n haeddu cydnabyddiaeth am eu gwaith arbennig gyda phobl ifanc?

Mae Urdd Gobaith Cymru yn croesawu enwebiadau ar gyfer Tlws John a Ceridwen Hughes Uwchaled 2018 – tlws a roddir i unigolyn sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol i fywyd ieuenctid Cymru.

Os ydych chi'n adnabod unigolyn neu unigolion sydd wedi gwneud gwaith heb ei ail gyda phobl ifanc dros y blynyddoedd, anogir chi i'w henwebu. Gall fod yn ymwneud ag unrhyw agwedd o waith ieuenctid, cyn belled â'i fod yn waith wyneb yn wyneb gyda phobl ifanc dros 11 oed, yn wirfoddol a thu allan i oriau ysgol. Rhaid i'r gwaith fod drwy gyfrwng y Gymraeg, neu gydag ieuenctid sy'n dysgu'r iaith. Gall hefyd fod gydag unrhyw fudiad ieuenctid.

Rhoddir Gwobr John a Ceridwen Hughes gan Dewi a Gerallt Hughes er cof am eu rhieni, John a Ceridwen, oedd yn weithgar iawn ym maes ieuenctid.

Gwirfoddolwyr yw asgwrn cefn mudiadau fel yr Urdd ac ni fyddai modd i ni gynnal na chynnig cymaint o gyfleoedd a phrofiadau i blant a phobl ifanc Cymru heb eu cefnogaeth.

Dyma gyfle felly i ddiolch ac i gydnabod gwaith unigolyn neu unigolion yn eich ardal chi sydd wedi rhoi o'u hamser er mwyn cefnogi ieuenctid Cymru, a hynny mewn unrhyw faes cyn belled â'i fod drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym yn croesawu enwebiadau rhwng nawr ac Ionawr felly byddwn yn argymell i bawb fynd amdani ac enwebu'r unigolion arbennig hynny yn eich ardal chi!

Gellir cael gafael ar y Ffurflen Enwebu drwy fynd i urdd.cymru/tlws neu drwy gysylltu gydag Enfys Davies ar 01239 652 163 neu enfys@urdd.org. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw dydd Gwener, 19 Ionawr 2018.

Yn gywir iawn,
Dai Bryer a Sian Rogers
Cyfarwyddwyr Gwaith Maes ac Ieuenctid
Urdd Gobaith Cymru

# Cyngor Cymuned Melindwr

Cynhaliwyd y cyfarfod ar nos Iau Tachwedd 16eg yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor efo'r Cynghorydd Andrea Jones yn y gadair. Yr oedd yna ymddiheuriadau oddi wrth dau gynghorydd.

Mae Mrs Eluned Hughes yn sefyll i lawr fel Cynghorydd. Hoffai Cyngor Cymuned Melindwr ddiolch i Eluned am ei gwasanaeth dros y blynyddoedd. O ganlyniad i hyn mae yna nawr ddwy sedd wag. Os dymuna rhywun fod yn Gynghorydd Bro a wnant gysylltu â'r clerc (Lynne B Davies, Glasfryn, Capel Bangor, Aberystwyth. SY23 3LP) neu un o'r Cynghorwyr.

Etholwyd y Cynghorydd Aled Lewis yn is-gadeirydd.

Mae Cyngor Ceredigion yn bwriadu cynnal sesiynau ailgylchu mewn gwahanol ardaloedd ac mae Cyngor Cymuned Melindwr wedi datgan diddordeb; gobeithir cynnal y sesiwn ar bnawn Llun ar faes parcio y Neuadd; dyddiad i'w benodi.

Mae Cyngor Cymuned Melindwr yn gwahodd ceisiadau gan Fudiadau Lleol sydd â phrosiect ar y gweill i wneud cais am grantiau bychain, cyn diwedd y flwyddyn. Bydd angen gwybodaeth fanwl o'r prosiect.

Ceisiadau i'r clerc (arthen@btinternet.com) neu'r cyfeiriad uchod erbyn Rhagfyr 31.

Dymuna Cyngor Cymuned Melindwr ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

# Creaduriaid

**Arddangosfa Ruth Jên yn Morlan**

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf aeth enw Ruth Jên i gael ei gysylltu â ffrolic o sgertiau, sioliau a hetiau uchel hen wragedd bach Cymreig, tybiedig. Mawr fu ein mwynhad ni i gyd o'r cymeriadau chwareus, gweithgar a heriol a ddaeth drwodd o blith y dillad cwmpasog, gwlanog, gwlatgar.

Tra gwahanol yw'r printiau sydd ganddi ar wal Morlan y dyddiau hyn, lluniau wedi eu cynhyrchu drwy ddefnyddio gwahanol dechnegau printio yn cynnwys sychbwynt ac ysgythru, a thorluniadau leino.

Mi ges gyfle i holi ychydig arni am darddiad ei chyfansoddiadau diweddaraf. "Dw i'n ffan mawr o waith mynegiadwyr yr Almaen ddechrau'r ganrif ddiwethaf," esboniodd, "pobl fel Erich Hekel a Schmidt-Rottluff, a dw i hefyd yn ffan o dorluniau leino William Brown. Fe wnes i ailddarganfod fy hoffter i o dorluniau leino mewn cwrs deuddydd yn yr Hen Goleg fis Awst eleni, dan arweiniad yr arbenigwraig Wuon Gean Ho."

Yr hyn sy'n syfrdanol yn yr arddangosfa yw'r dyfnder mynegiant sydd yn y lluniau llinell du a gwyn yma. Mae'r testunau wedi eu tynnu bron yn gyfangwbl o'n hen chwedlau ni a'u hystyron cymhleth wedi eu hymchwilio a'u harchwilio nes llwyddo i'w cynrychioli'n weledol gydag emosiwn sensitif ac angst, p'un ai mewn llinellau du ar wyn neu wyn ar ddu, p'un ai mewn lluniadau anghymhleth megis y Pair Dadeni, neu ddelweddau mwy prysur megis Hela'r Dryw.


Y llun ddewisais i i'w brynu – dŷn nhw ddim yn ddrud – yw y Daith. Ynddo mae tri ffigur amhersonol llawn personoliaeth yn sefyll mewn llestr crwn sy'n mynd i rywle. Mae'r ffigur ar y dde yn dawel ysgwyddo'r gyfrifoldeb am y daith, mae'r ffigur nesaf ato wedi ymddiried pob cyfrifoldeb i'r cyntaf, does fawr o ffydd gan y trydydd yn yr arweinyddiaeth ond does ganddo ddim dewis ond mynd ar y daith.

Gellid cynnal seiat hirfaith ar y llun bach yma yn unig; mae yma lawer iawn yn rhagor i'w gweld.
Diolch Ruth Jên.
**Llinos Dafis**

## Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

# Colofn Enwau Lleoedd

Fis diwethaf bûm yn trafod yr ymadrodd *torri gwddwg* mewn enwau nentydd ar hyd a lled Cymru, gan edrych yn benodol ar y *Nant torri wddwg* sy'n llifo ar luest Maesnant ym mynydd-dir Pumlumon.




**Mapiau Stad Gogerddan cyfrol 37, tudalen 46, Maesnant.**
**Trwy ganiatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru**

Mewn gwirionedd, nid dyma'r unig gyd-destun i'r ymadrodd mewn enwau lleoedd gan y digwydd hefyd mewn enwau tirweddol.

Yn ardal Crundale, ger Hwlffordd, yn sir Benfro, ceir dau enw o ddiddordeb, sef *Torri Gwddwg Hill* a *Torri Gwddwg Bridge*. Mae'n ymddangos mai disgrifiad yw *Torri Gwddwg Hill* o dir hynod o serth, lle byddai perygl i rywun gwympo a thorri ei wddwg, a gellir casglu i'r enw gael ei drosglwyddo o'r bryn i'r bont gerllaw.

Ar Restr Map Degwm plwyf Caergybi yng ngogledd-orllewin Môn, cofnodir cae o'r enw *Llain Torri Gwddf*. Mae'r tirlun wedi newid yn sylweddol ers cyfnod y Map Degwm, gyda mapiau'r Arolwg Ordnans yn cofnodi bodolaeth chwareli, maes tanio, a chronfa ddŵr yno ar wahanol gyfnodau, er mai parc gwledig sydd yno bellach. O ganlyniad, mae'n amhosibl barnu sut y derbyniodd y cae ei enw, ond rhaid derbyn y posibilrwydd bod yno unwaith dirlun serth.

Mae'n ddiddorol nodi bod y cof am gae *Llain Torri Gwddf* o gyfnod y Mapiau Degwm yn y 1840au wedi ei gadw'n rhannol yn yr enw *Lôn Torri Gwddw* a ddefnyddir ar lafar heddiw am lwybr cyfagos.

Gellir dwyn cymhariaeth ag enghreifftiau pellach y tu hwnt i Gymru yn ogystal.

Digwydd yr ymadrodd Cernyweg *crak an gonna* yn golygu 'torri'r gwddwg' mewn amryw o enwau caeau yng Nghernyw, a hynny fel arfer oherwydd eu serthni eithafol.

Yng Ngeiriadur Saesneg Rhydychen cofnodir *break-neck* fel hen ymadrodd yn golygu 'a steep place endangering the neck'. Tebyg felly mai dyna'r ystyr a welir yn yr enwau lleoedd *Breakneck Bank* i'r gorllewin o Kidderminster, swydd Amwythig; *Breakneck Hill* i'r de-ddwyrain o Barnstable, Dyfnaint; a'r caeau *Great Breakneck* a *Little Breakneck* ym mhlwyf Corfe Castle, Dorset. Mae'n werth dwyn cymhariaeth hefyd â'r enwau *Break My Neck Farm* a *Break My Neck Lane* ym mhlwyf Gulval yng Nghernyw.

Gellir casglu felly bod yr ymadrodd *torri gwddwg* mewn enwau lleoedd tirweddol yn dynodi perygl neu'n fath o rybudd.

**Angharad Fychan**

Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru a'r Cynllun GWARCHOD www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru

*Crefftau Pennau*
*Coffi Boreuol*
*Byrbrydau Poeth neu Oer Cinio*
*Te Prynhawn*
*Crefftau Ac Anrhegion*
Ar gau ar ddydd Llun
Brecwast ar gael
01970 820 050
Pennau

**R.J.Edwards**
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mân
01970 820149
07980 687475

**TACSI EDDIE**
**Perchennog: Connie Evans, Gwawrfryn, Penrhyn-coch**
01970 828 642
07790 961 226

*Trefnwyr Angladdau*
***C T Evans***
Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn, wedi ei arwain yn bersonol gydag urddas. Capel Gorffwys Preifat, Gwasanaeth Dydd a Nos.
**01970 820013**
*gwyn@ct-evans.co.uk*
**Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY24 5BS**

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture
**PLYGAIN MORLAN**
**7.30, nos Fercher, 20 Rhagfyr**
Croeso i bawb i ddathlu'r Nadolig yn ein Plygain draddodiadol.
**CRÊD A GWEITHRED**
**4-25 Ionawr (oriau agor i'w cadarnhau)**
Arddangosfa yn ymwneud â gwrthwynebwyr cydwybodol, recriwtio, heddwch a dal eich tir yn yr Rhyfel Byd Cyntaf.
**morlan.cymru**
**01970-617996; post@morlan.cymru**



# Adolygiadau

*Rhywbeth i'w ddweud: 10 o ganeuon gwleidyddol 1979-2016*; gol. Elis Dafydd a Marged Tudur. Cyhoeddiadau Barddas £8.95 104t.

Wrth glywed am ddyfodiad y gyfrol yma gyntaf, rhaid cyfaddef 'mod i wedi gwingo rhywfaint. Mae 'canu gwleidyddol Cymraeg' yn bwnc sydd wedi ei drafod hyd syrffed dros y blynyddoedd, ac roeddwn yn ofni mai'r un hen drafodaeth flinedig fyddai yma eto ynglŷn ag oes aur y canu protest a sut mae hynny wedi diflannu dros y blynyddoedd diwethaf.


Rhyddhad mawr, felly, oedd darganfod cyfrol oedd yn cynnig dehongliad ychydig bach yn wahanol, a chyfres o gyfraniadau difyr a dadlennol yn trafod beth sy'n gwneud cân wleidyddol. Ac mae'r farn yn amrywio.

Ydyn, mae rhai o'r *usual suspects* yma, y caneuon amlwg – 'Gwesty Cymru' gan Geraint Jarman, 'Tân yn Llŷn' gan Plethyn ac wrth gwrs 'Yma o Hyd' gan Dafydd Iwan ac Ar Log – ond mae hyd yn oed yr ysgrifau am y rhain yn cynnig onglau newydd sy'n gwneud i chi feddwl eto am eu negeseuon.

Mae'r fformat yn helpu: y cyfranwyr sy'n dewis y caneuon maen nhw'n eu trafod, yn hytrach na thestun wedi'i osod gan y golygyddion. Mae'r blynyddoedd dan sylw yn helpu hefyd, 1979–2016, cyfnod sy'n dilyn 'oes aur' y canu protest Cymraeg traddodiadol. Wedi dweud hynny, dyma gyfnod sy'n pontio dau refferendwm datganoli go wahanol, ynghyd â dwy lywodraeth Doriaidd lawdrwm.

Gwir lwyddiant y gyfrol ydy'r caneuon annisgwyl sy'n cyrraedd y rhestr, yn enwedig efallai'r rhai mwyaf diweddar sy'n cloi'r casgliad o ysgrifau. Mae Dyl Mei yn fwy cyfarwydd am ei sylwadau bachog ar raglen Tudur Owen, ond yma mae wedi cyflwyno chwip o ddadansoddiad treiddgar o'r hit feiral, 'Talu Bills' gan Rodney Evans. Cysylltir canu gwleidyddol Cymraeg yn aml â brwydr yr iaith, ond mae hon, a sawl ysgrif arall yn y gyfrol, yn dangos bod ystod llawer ehangach gan ein cerddorion.

Ac yna mae darn Nici Beech, yn trafod 'Cyn i'r lle 'ma gau' gan y Bandana, yn dangos sut gall dehongliad y gwrandäwr o gân amrywio. Go brin bod llawer wedi ystyried hon fel cân wleidyddol cyn hyn, ond mae ymdriniaeth ardderchog Nici yn sicr yn gwneud i chi feddwl ddwywaith am neges caneuon.




Dyma lwyddiant y gyfrol i mi – mae'n gwneud i chi feddwl am ganeuon na fyddech chi, efallai, heb lawn ystyried eu neges yn flaenorol, gan hefyd wfftio'r honiad nad oes sylwebaeth wleidyddol yng nghaneuon ein cerddorion ifanc.

**Owain Schiavone**

***Cyfle i ennill copi - gweler t.7***

---

Cyfeillion

# y tincer

***FFURFLEN GAIS SWYDDOGOL I YMUNO Â'R CLWB***

**Enw Llawn** ______________________

**Cyfeiriad** ______________________
______________________
______________________

**Côd Post** ______________

**Rhif Ffôn** ______________

**Taliadau**
**Ticiwch y blwch priodol os gwelwch yn dda**

☐ Arian neu Siec

☐ Archeb Banc

**Dychweler at y Trefnydd**
Bethan Bebb,
Pen Pistyll,
Cwmbrwyno,
Goginan,
Aberystwyth,
Ceredigion,
SY23 3PG

**Datganiad** **Dymunaf ymaelodi â Chlwb Cyfeillion Y Tincer a deallaf y bydd gofyn i mi dalu £10 am flwyddyn o Aelodaeth sydd yn cynnwys dau rif. Tynnir y rhifau yn fisol yn ystod 10 sesiwn plygu'r Tincer.**
**Cyhoeddir y rhifau buddugol yn Y Tincer.**

**Llofnod** ______________________

**Dyddiad** ______________________

Una Leavy (addasiad: Mari George) *Straeon Hud a Lledrith y Celtiaid* Gwasg Carreg Gwalch £9.95 t.126

Fel mam i ddau o fechgyn oedran cynradd dwi'n aml yn chwilio am straeon gafaelgar yn y Gymraeg i ddarllen iddyn nhw cyn noswylio. Erbyn hyn mae straeon pum munud yn rhy fabïaidd iddynt, ac mae straeon byrion yn apelio gan nad ydyn nhw'n rhy hir i fam flinedig ar ddiwedd dydd, ac mae diwedd pendant i'r straeon – sy'n arwydd ei bod hi'n amser diffodd y golau a rhoi pen ar obennydd! Dyma lyfr delfrydol felly.

Y llyfr tebyg diwethaf i mi ei brynu oedd *Chwedlau Aesop* gan Michael Morpugo, addasiad Gareth F. Williams, ac mae pob amser groeso i chwedlau o bob math i danio dychymyg plant. Pan agorais glawr *Straeon Hud a Lledrith y Celtiaid* gyda fy mab deg oed, y stori roedden ni'n dau eisiau ri darllen oedd yr un am Gymru a'r ddraig goch. Lleolir y straeon eraill yng ngwledydd eraill Prydain, ac mae'n fodd o gyflwyno'r Celtiaid i'n plant, a'r cysylltiad rhwng y gwahanol wledydd. Ceir dwy stori o Ynys Manaw, dwy o'r Alban, dwy o'r Iwerddon ac un o Gernyw a Llydaw, ac mae'r gyfrol yn rhoi blas o hen straeon y gwledydd hynny.


Mae addasiad Mari George yn un darllenadwy iawn. Prif apêl y llyfr yw'r cyfle mae'n ei roi i drosglwyddo iaith goeth i'ch plentyn, a'r cyfle i gadarnhau eu bod yn deall llif y stori drwy wirio ystyr gair o bryd i'w gilydd.

**Rhian Williams**

***Cyfle i ennill copi - gweler t.7***




Adolygiadau y dudalen hon oddi ar www.gwales.com trwy ganiatâd Cyngor Llyfrau Cymru




John Dilwyn Williams a Mair Jones Parry *Coleg Madryn, Cyfrol o Atgofion*. Gwasg Carreg Gwalch, 2017, 182t., £6.50.

Casgliad o atgofion nifer o gyn-fyfyrwyr ac ambell gyn-aelod o staff Ysgol Amaethyddol gyntaf Cymru geir yn y gyfrol yma; ysgol ddaeth i'w hadnabod fel Coleg Madryn. Sefydlwyd y Coleg gan Gyngor Sir Caernarfon yn 1913, a datblygodd a thyfodd i hyfforddi bechgyn a merched ardal eang yn ymestyn ym mhell tu hwynt i ffiniau'r sir, drwy'r Gogledd a rhannau o'r De a'r Gororau hefyd. Gwnaeth hyn am yn agos i ddeugain mlynedd hyd 1952, pan drosglwyddwyd yr addysgu o Fadryn i Glynllifon, sydd bellach yn un o safleoedd Coleg Meirion/ Dwyfor.

Fel y ganolfan breswyl gyntaf o'r fath i ddarparu addysg amaethyddol yng Nghymru roedd Ysgol Amaethyddol Madryn yn blaenori ar sefydliadau megis Llysfasi, Brynbuga a Phibwrlwyd. Clod mawr i weledigaeth ac arweiniad y Cyngor Sir, ac yn arbennig i Ysgrifennydd y Pwyllgor Addysg, Evan R. Davies.

Mae dros ddeg ar hugain o fyfyrwyr a chyn-weithwyr yn y coleg wedi cyfrannu pennod yr un i'r gyfrol, ac mae'n anochel fod cryn dipyn o ail adrodd wrth i bob un sôn am ei atgofion a'i brofiadau personol. Mae'n ymddangos nad yw'r cyfraniadau wedi eu haddasu na'u golygu i geisio osgoi hynny ac mae'n drawiadol fod pob un o'r cyfranwyr yn ddieithriad yn werthfawrogol o safon uchel a chyson yr hyfforddiant dderbyniwyd yn yr hen goleg dros y deugain mlynedd.

O ddiddordeb arbennig i ni yn ardal Bow Street ydy'r cysylltiad rhwng Coleg Madryn ac un o gymeriadau unigryw yr ardal yma, sef y diweddar Gwyn Jones, Llys Maelgwyn. Bu tad Gwyn yn Brifathro'r Coleg a'i fam yn Fetron y Coleg am flynyddoedd, ac yno ym Mhlas/Castell Madryn y treuliodd Gwyn ran helaeth o'i blentyndod. Yn ei dro fe gyfrannodd Gwyn yntau yn helaeth iawn at wella a datblygu hwsmonaeth a safon amaethu dros ardal eang.

I mi'n bersonnol, pennod 13, sef atgofion Evan Davies, Hafan Deg, Llanbedr Pont Steffan (a fagwyd ar fferm y teulu yn Nyffryn Aeron) oedd un o'r cyfraniadau mwyaf dadlennol. Bu Evan Davies yn aelod o staff y coleg dan brifathrawiaeth Isaac Jones (tad Gwyn Jones) am gyfnod sylweddol.

Trueni bod dros ddeng mlynedd ar hugain wedi mynd heibio ers dechrau ar y gwaith o gasglu'r atgofion hyn, a nifer o'r cyfranwyr wedi ein gadael cyn i'r casgliad weld golau dydd eleni, Mae'n debyg mai Evan John Griffith fu'n gyfrifol am lawer iawn o'r gwaith cymell a chasglu cynnar, ac yntau bellach hefyd wedi marw.

Ond gwell hwyr na hwyrach, ac mae hon yn gyfrol sy'n llenwi bwlch yn hanes addysgu a pharatoi rhai cannoedd o ddarpar ffermwyr Cymru mewn cyfnod o ryfel a heddwch, ac o lanw a thrai yn hanes "crefft gyntaf dynol ryw".

**Gwynfryn Evans**

SIOP Y PETHE


Llyfrau, Cardiau Cyfarch a Cherddoriaeth a llond llawr o Grefftau ac Anrhegion

01970 617120

Nawr yn cynnig gwasanaeth Cliciwch a Casglwch ar ein gwefan

www.siopypethe.cymru






Linda Griffiths *Seidir ddoe: atgofion Linda trwy ganeuon* (Gwasg Carreg Gwalch)£7.00 118t.

O ystyried mai ar sail ei llais gwych y mae Linda 'Plethyn' yn adnabyddus, mae'n addas iawn mai trwy ganeuon y mae'n cyfleu ei hatgofion. Yn y gyfrol hon mae'n trafod caneuon sy'n bwysig iddi, yn ganeuon gwerin, rhai gwreiddiol a rhai wedi eu cyfansoddi ar ei chyfer.

Mae un o'r caneuon hyn ar ddechrau pob pennod ac yn gosod thema neu'n fachyn ar gyfer hanesion. Cawn atgofion am fywyd a gwreiddiau'r grŵp Plethyn a bywyd gwledig Sir Drefaldwyn a chwrdd ag ambell gymeriad a fu'n ddylanwad pwysig arni. Dyma gip ar hanes rhai o gymwynaswyr mwyaf canu gwerin, fel Elfed Lewys, Merêd ac Arwyn Tŷ Isa, o safbwynt rhywun oedd yn eu hadnabod yn bersonol. Mae eu hanes nhw, hanes y caneuon a hanes bywyd Linda wedi eu cyfuno mewn straeon difyr, ffraeth a sylwadau miniog. Yn ogystal, ceir lluniau du a gwyn i ddod â'r cwbl yn fyw.

Mewn ambell bennod cawn ychydig o hanes ehangach, fel sôn am hanes Gwylliaid Cochion Mawddwy yng nghyd-destun y gân 'y Gwylliaid'. Dro arall, mae'r gân yn cyfeirio at unigolyn, fel 'Elfed' neu 'Ôl ei droed' sy'n deyrnged i'w thad. Mae'r cyswllt rhwng Merêd a geiriau gobeithiol Myrddin ap Dafydd i Farwnad yr Ehedydd yn gweithio'n wych.

Ond, er gwaetha'r ffaith bod y teitl yn cyfeirio at 'Seidr ddoe yn troi'n siampên' nid cyfrol o hiraeth am orffennol euraid yw hon. Ie, cyfrol o atgofion yw hi, ond mae hefyd yn sôn am y dyfodol a balchder Linda yn llwyddiant grŵp ei merched, sef 'Sorela'.

**Meinir Olwen, Bow Street**
**Mae Meinir yn fyfyrwaig ym Mhrifysgol Bangor yn astudio Cymraeg a Ffrangeg.**



Linda a Mari yn lansio y gyfrol yn y Llyfrgell Genedlaethol. Llun: LLGC

# DOLAU

Mae hanes i Dom Pantyperan
Gael cnoc nes ei fo'n diasbedian.
Newidiodd ei lety
Am wely ysbyty
Ac i'r hwrdd mae drws lladd-dy yn llydan!



Dyma Morfudd ar achlysur ei bedydd - merch fach Huw (gynt o Sŵn-yr-Awel) a Rhiannon Williams; chwaer fach newydd i Melangell. Mae pawb wrth eu bodd.

**Pen blwydd arbennig**
Pen blwydd hapus i Ifor Mason, Bryngwyn Mawr, fydd yn dathlu ei ben blwydd yn 80 ar 22 Rhagfyr.

# MADOG, DEWI, CEFN-LLWYD

**Suliau Madog - 2.00**
**Ionawr**
7 Elwyn Pryse
14 Rhidian Griffiths
21 Bugail
28 10.00 Oedfa'r ofalaeth yn y Garn - Bugail

**Pen blwydd arbennig**
Pen blwydd hapus i Aldwyth Lewis, Rhos-goch, sydd yn dathlu pen blwydd arbennig ar 20 Rhagfyr

**Gellinebwen yn yr eira**
Bu'r gohebydd Mari Grug o Newyddion BBC yn siarad a Llywelyn a Lleucu, Gruff, Mabli a Gwenno am y profiad o fywyd yn yr eira ganol y mis – y plant yn cael eu profiad cyntaf o weld eira.



Cafodd un teulu o Gefn-llwyd wyliau estynedig yn Lapland pan fethwyd hedfan adref am rai dyddiau oherwydd fod Maes Awyr Birmingham ar gau. Ar ben hynny cafwyd noson ym Mirmingham cyn dychwelyd adref. Taith i'w chofio!

**Cofiwch gysylltu â ni - YTincer@googlemail.com**

# TREFEURIG

**Croeso**
Croeso i Olwen Fowler sydd wedi symud i fyw i Gwmerfin. Mae Olwen yn ddylunwraig ddawnus – gwelir ei gwaith mewn cyfrolau fel *Treiglo* (Gwyneth Lewis), *The Tradition* (Peter Lord), *Caeth a Rhydd* (Peredur Lynch), *Bylchau* (Aneirin Karadog), ac *I Wyneb y Ddrycin* (Haf Llewelyn).



Ar Dachwedd 29 bu Grŵp Rhydypennau yn cerdded heibio pen uchaf Cwmsymlog i Gwmerfin.

# Cyngor Cymuned Tirymynach

Cyfarfu'r Cyngor ar nos Iau 26ain o Hydref yn Neuadd Rhydypennau o dan lywyddiaeth y Cyng. Rowland Rees. Da oedd deall fod y Cyng. Tom Hughes yn gwella ar ôl ei ddamwain yn ddiweddar, hefyd Mrs Pat Evans, priod y Cyng. Dewi Evans. Cafwyd adroddiad manwl a chynhwysfawr o ymweliad y Cadeirydd a'r Clerc ag Abertawe a'u cyfarfod ag un o brif swyddogion yr archwilwyr Grant Thornton. Da yw cael adrodd fod ein cyfrifon a'r dogfennau pwrpasol mewn trefn. Swm a sylwedd y cyfarfodydd hyn yw ein paratoi ar gyfer y dyfodol pryd y lawr lwythir llawer o waith y Cyngor Sir arnom ni y Cynghorau Cymuned. Golyga hyn y bydd gofyn inni godi mwy o arian trethi yn ein cyllidebau i gyfarfod â chostau sylweddol y gwaith a ofynnir i ni ei gyflawni. Cafwyd nifer o awgrymiadau defnyddiol gan y Gŵr Mawr, ac fe'i cyplysir mewn argymhellion a ddaw oddi wrtho tua diwedd y mis (Tachwedd). Diolchir i'r Cadeirydd, y Cyng. Rowland Rees a'r Clerc Y Parchg. Richard Lewis am ymgymryd â'r gwaith mor drylwyr a phroffesiynol.

Yn ei adroddiad misol dywedodd y Cyng. Paul Hinge nad oedd wedi cael unrhyw ateb gan reolwyr yr Amlosgfa parthed eu cyfarfod i drafod nifer o broblemau o gwmpas y fangre. Penderfynodd y Cyngor anfon gair at y Rheolwr yn Llanelli yn mynegi ein cwynion. Nid oedd dim i'w hadrodd hyd yn hyn am y llwybr o Rhydypennau i Dolau na'r gysgodfan bws ger Caerfelin.

Mynegodd y Cyng. Hinge ei ofid, a gofid pawb, am y cynnydd mewn baw cŵn yn yr ardal. Deallir fod rhai yn taflu'r carthion dros glawdd i dir ffermydd, a bod llwybrau cerdded yng Nghoed Gogerddan yn warthus, yn enwedig gan fod beicwyr yn defnyddio'r cyfleuster yma. Mae'n amlwg nad yw'r mwyafrif o berchnogion yn hidio nac yn gwrando, ac yn ddi-hid o iechyd y cyhoedd. Penderfynwyd ysgrifennu at yr Undebau Amaethyddol a gofyn iddynt bwyso ar ddifrifoldeb y sefyllfa yn y wasg.

Mae problem perchnogion y coed ochr ffordd o Glarach i fyny'r rhiw tuag at Aberystwyth yn parhau. Disgwylir adroddiad diweddaraf yr LDP – sef cynllunio yn yr ardaloedd gwledig cyn bo hir.

Mynegwyd pryder bod nifer o achosion fyrgleriaeth wedi digwydd yn yr ardal yn ddiweddar a deallwyd bod gofid ymhlith pobl oedrannus am yr hyn sy'n digwydd o'u cwmpas. Deallir fodd bynnag fod yr Heddlu yn cau'r rhwyd am y lladron yn ystod y dyddiau hyn.

Bydd y cyfarfod nesaf ar 30 Tachwedd yn Neuadd Rhydypennau.

Cyfarfu'r Cyngor ar nos Iau 30 Tachwedd yn Neuadd Rhydypennau o dan gadeiryddiaeth y Cyng. Rowland Rees. Mynegwyd cydymdeimlad dwys â'r Cynghorydd Dewi Evans ar farwolaeth ei briod Pat. Roedd Pat a'r teulu yn deulu poblogaidd yn yr ardal ac yn gefnogol i'r achosion lleol, a gwelir eu heisiau yn ddirfawr gan ei theulu a'r gymdogaeth.

Cadarnhawyd y bydd llidiart yn cael ei osod yn fuan wrth y bwlch i gae chwarae Bryncastell a bydd y goeden Nadolig yn goleuo wrth ysgol Rhydypennau. Derbyniwyd y swm o £3,121 o ad-daliad TAW (VAT) am nifer o eitemau, megis yn y caeau chwarae. Gwneir rhagor o ymchwiliadau parthed maint goliau fydd eu hangen yng nghae chwarae Tregerddan. (Mae problem y dŵr yn parhau wrth y fynedfa i'r Cartref).

Anfonodd y Cynghorydd Paul Hinge ei adroddiad misol gan ymddiheuro am ei absenoldeb. Dywedodd bod y llifogydd wedi gwneud tipyn o niwed yn ardal Llangorwen a bod nifer o asiantau wedi cael eu cysylltu ganddo. Gobeithia hefyd weld Gwaith atgyweirio wyneb y Lôn Groes yn fuan. Adroddodd bod rhai personau wedi eu harestio yn dilyn lladrata yn ardal Bow Street.

Llongyfarchodd Côr Clwb Ffermwyr Ieuainc Tal-y-bont am wneud mor dda yn Eisteddfod Cymru yn Llandudno, roedd nifer o aelodau o Dirymynach yn canu yn y côr, ac ymunodd y Cyngor hefyd yn y cyfarchion. Fel y darllenwyd yn y wasg yn ddiweddar roedd rhan o lwybr yr arfodir rhwng Clarach a Borth wedi syrthio, a diolchir i berchennog y tir Mr Jack Evershed am ganiatáu i'r llwybr gael ei ddargyfeirio dros ran o'i dir. Roedd nifer o eitemau gan y Cynghorydd Hinge o'i adroddiad y mis diwethaf wedi cael sylw eto ganddo ond heb gael atebion.

Mae nifer o sietynau heb cael eu torri yn yr ardal ond gobeithir y gwelir y Gwaith hyn yn cael ei gwblhau cyn y Nadolig. Penderfynwyd cysylltu â Comisiynydd yr Heddlu parthed yr oedi mewn cael gwasanaeth Hofrenyddion i ardaloedd gwledig yn dilyn cau i lawr ar wasanaethau lleol.

Bydd y cyfarfod nesaf ar 25 Ionawr 2018 pryd y byddwn yn llunio'r Gyllideb ar gyfer 2017/18 yn gosod y Praesept, ac yn ymateb i geisiadau am gefnogaeth ariannol gan fudiadau lleol. Felly, os oes unrhyw fudiad lleol nad yw wedi gwneud cais ariannol hyd yma, yna croesewir y cais/ceisiadau erbyn y dyddiad uchod.

Dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i deuluoedd cymunedau Tirymynach a Llangorwen.

*Ymddiheuriadau – achosodd diawl y wasg i ran gyntaf yr adroddiad beidio ymddangos yn rhifyn Tachwedd. (Gol.)*

## *Llythyr*

Annwyl Syr/Madam
Mae Cymdeithas Brodwaith Cymru yn cynnig ysgoloriaeth bob blwyddyn o hyd at £500 i fyfyriwr Cymraeg sy'n dilyn cwrs tecstilau mewn coleg. Bu nifer o fyfyrwyr yn llwyddiannus yn y gorffennol a phleser oedd cael arddangos peth o'r gwaith ar stondin y Gymdeithas yn yr Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn. Disgwylir i'r ymgeisydd fod yn 18 oed a throsodd.

Amcanion y Gymdeithas yw hyrwyddo brodwaith drwy gyfrwng y Gymraeg, a threfnir cyrsiau, darlithoedd, dosbarthiadau ac arddangosfeydd mewn ardaloedd ledled Cymru. Diffinnir brodwaith fel unrhyw waith sydd yn addurno gan ddefnyddio edau a nodwydd, a cheir amrywiaeth o dechnegau ar gyfer hyn. Mae gennym arddangosfa o waith yr aelodau yn yr Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn.

I gael ffurflen gais neu ragor o wybodaeth cysylltwch â mi yn y cyfeiriad isod:

Y dyddiad cau fydd 30 Ionawr, 2018.

Gyda diolch,
Yn gywir,
Medwen Charles
Maes Meini, Rhyduchaf
Y Bala, LL23 7SD
maes.meini@btinternet.com

# LLANDRE

**Merched y Wawr**

Ar 16 Hydref aeth aelodau o Ferched y Wawr Llandre i ymweld â Llyfrgell y Dre lle y cawsom ein harwain o gwmpas gan aelod o'r staff a wnaeth egluro beth oedd yn mynd ymlaen yna. Noson ddiddorol iawn ac yn agoriad llygad i rai ohonom.

Cafodd aelodau o Ferched y Wawr Llandre eu difyrru gan Ken Edwards y Plymbyr ar 20fed o Dachwedd a wnaeth ddynwared Meic Stevens y canwr pop pobogaidd. Roedd wedi gwisgo yn addas a chanodd i gyfeiliant gitâr er mawr mwynhad yr aelodau.

**Llandre dan eira, Rhagfyr 2017**

Anghynefin dangnefedd - byd esgus,
byd ysgafn, cyfaredd.
Ond meiriol â'i dymheredd
Wna'r haul hwn, real ei wedd.
**Geraint Williams, Llandre**

**Actorion ifanc**

Cynhaliwyd Gŵyl Ddrama un act gan



Theatr Ieuenctid Canolfan y Celfyddydau yn ddiweddar. Ar ôl dwy noson o berfformiadau arbennig cafwyd seremoni wobrwyo fawreddog er mwyn cydnabod gwaith caled a thalent y criw ifanc. Roedd Glain Llwyd a Yoyo Barron o Landre yn aelodau o gast y ddrama 'And this is where we came in' gan Alan Ayckborne. Dyma lun ohonynt gyda gweddill aelodau cast y ddrama.

Mae Yoyo, Glain a Miri, ei chwaer, yn aelodau o gast 'The Little Match Girl', sef sioe Nadolig Canolfan y Celfyddydau sy'n cael ei pherfformio ar Ragfyr yr 22, 23 a 24 yn Theatr y Werin.

**Noson Nadoligaidd 5 Seren yn Llandre**

Bu'r Noson Nadoligaidd a gynhaliwyd yn Bethlehem Llandre ar nos Wener Tachwedd 24 eleni yn llwyddiannus iawn a chafwyd noson gymdeithasol hyfryd i roi cychwyn ar ein dathliadau ar gyfer y Nadolig. Diolch i gydweithrediad *Parti Camddwr* fe fydd pob ceiniog a godwyd ar y noson yn mynd i gynorthwyo gyda gwaith Uned Cemotherapi Ysbyty Bron-glais. Yn y llun mae Manon Wyn James o Elusennau Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn derbyn siec am £625 gan gynrychiolwyr Banc Bro Llanfihangel Genau'r-glyn: Wynne Melville Jones, Cadeirydd; Greg Hill a Llinos Evans, Dôl-y-Bont. Diolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd tuag at greu noson PUM SEREN go iawn.






CROCHENDY YNYS-LAS
Croeso i ffrindiau a grwpiau, a dewis di-ben-draw o ddarnau o bob lliw a llun i'w paentio.
Ar agor drwy'r flwyddyn
Archebwch le drwy ffonio:
07402 335638
www.blueislandceramics.co.uk

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION
13 Stryd y Bont, Aberystwyth
01970 626 200

## Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch

### 27-28 Ebrill 2018

### Testunau Llenyddol

Dyma destunau llên yr Eisteddfod; y beirniad yw y Prifardd Hywel Griffiths, Aberystwyth, a dylai cyfansoddiadau gael eu gyrru trwy'r post i'r Ysgrifennydd Ceris Gruffudd, Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3HE neu e-bost i Ceris.Gruffudd@gmail.com cyn 4 Ebrill.

**Cadair**: Cerdd hyd at 50 llinell ar y testun 'Y Bae' Y gadair a'r arian yn rhoddedig gan Sandra, Bethan a Phillip er cof am eu rhieni - Glenys a Henry Thomas, Cwmfelin.
Cadair fach a £50
**Telyneg**: Y Daith £10.00
**Soned**: Dinas £10.00
**Englyn Ysgafn**: Hysbyseb £10.00
**Stori Fer**: Cartref £10.00
**Brawddeg**: GOGERDDAN £10.00
**Limrig yn cynnwys y llinell**: Aeth Sion i'r Brifysgol yn Aber £10.00
**Erthygl**: yn addas i bapur bro yn trafod unrhyw nodwedd ddaearyddol yn yr ardal £10.00
**Adolygiad**: Adolygiad o unai *Hen Bethau Anghofiedig* gan Mihangel Morgan (Y Lolfa) neu *Treiglo* gan Gwyneth Lewis (Cyhoeddiadau Barddas). £10.00
**Tlws yr Ifanc – i rai dan 21 oed**: Portread o unrhyw ardal yng Nghymru. Tlws a £20.00 Y gwobrau yn rhoddedig gan Aaron ac Ashley Stephens, Glan Seilo.

Porchell
Eich cigydd lleol
PEN-Y-GARN
FFON 828 447
LLUN: 9-5.30
MAW-SAD 8.00-5.30
Gwerthir ein cynnyrch mewn rhai siopau lleol

# Cofia'n Gwlad

NEWYDD EI RHYDDHAU AR YOUTUBE... *Eglwysi Anghydffurfiol yn rhyddhau ffilm am y Rhyfel Byd Cyntaf yn seiliedig ar dystiolaeth ac atgofion lleol. Hyd: 57 munud.*



Yn 2013, daeth cynrychiolwyr capeli Anghydffurfiol yng ngogledd Ceredigion ynghyd i drafod ffyrdd o gofnodi'r Rhyfel Mawr (1914-18). Wrth galon yr ymholi hwn oedd y bwriad i weithredu y tu hwnt i furiau'r capeli eu hunain. Y canlyniad oedd prosiect **Cofio a Myfyrio** – prosiect aml-gyfrwng a gofleidiai'r cymdogaethau yn eu cyfanrwydd: yn frodorion a newydd-ddyfodiaid; y genhedlaeth iau hyd at y genhedlaeth hŷn.

Prif ysgogydd y cofleidio eang hwn oedd yr arddangosfa fawr o lythyron, lluniau a thrugareddau a gasglwyd yn y cymdogaethau eu hunain. Yn y trysorau teuluol hyn a'r cof llafar sy'n perthyn iddynt daethpwyd o hyd i wreiddiau stori a chymeriadau **Cofia'n Gwlad**.

Perfformiwyd y ddrama yn episodig ar draws pedair noswaith – yr act 1af yng nghapeli Y Garn (Bow Street) a Phen-llwyn (Capel Bangor) a'r ail act ym Methel (Tal-y-bont) a Horeb (Penrhyn-coch). Mae'r ffilm yn gyfuniad o'r perfformiadau hyn a chynnwys dogfennol yr arddangosfa deithiol.

Yn y ddrama, mae Evan John (Geraint Jenkins) yn cael ei ddenu i ddilyn y don o fechgyn sydd eisoes wedi enlistio. Mi fyddai wedi gafael yn y cyfle i 'ddianc a gweld y byd' ynghynt oni bai am anfodlonrwydd ei fam (Rhian Evans), gwraig y Tŷ Capel. A phwy all ei beio? Evan John yw ei hunig blentyn. I lenwi rhyw ychydig ar y bwlch ar ei ôl yn y Tŷ Capel y daw Mati (Carys Mai) – morwyn ym mhlas Gogerddan. Ond, maes-o-law, gadael yw ei hanes hithau hefyd – i fynd yn nyrs yn un o'r ysbytai yn Birmingham a fyddai'n derbyn bechgyn clwyfedig y ffosydd.

Gan mlynedd yn ddiweddarach, daw 'Brummie' (Rhydian Wilson) – ŵyr Mati – i'r ardal. Mae e'n chwilio am ei wreiddiau ac yn meddwl fod 'Mrs Jones Tŷ Capel' yn rhan o'r achau hynny. Ond dyw'r enw 'Evan John' yn golygu dim iddo. Nag i fawr o neb arall, bellach, chwaith.

Rhyddheir COFIA'N GWLAD ar YouTube wedi ei *premiere* theatrig yn ystod mis Tachwedd yng Nghanolfan Libanus, Y Borth – capel a gaeodd chwe mlynedd yn ôl ac a drowyd yn sinema *boutique* eleni gan Peter Fleming a Grug Thomas. Roedd y sinema dan ei sang ar gyfer y dangosiad.

Cynhyrchwyd y ddrama dan arweiniad **Theatr Gydweithredol Troedyrhiw** a'r ffilm mewn cydweithrediad â chwmnïau cynhyrchu **Garnfach** a **Wes Glei**.

Dolen i'r ffilm: https://www.youtube.com/results?search_query=cofia%27n+gwlad

Ffilmiau Troedyrhiw sydd eisoes ar YouTube... **Y SWPER OLAF** (2011) ; **SDIMBYDINEUD** (2014) ; **POBL YR YMYLON** (2016)





# Ysgol Pen-llwyn



Y Cyfnod Sylfaen yn siopa yn Siop y Pentref



Aled Ynni Da gyda CA2



Arbrawf gwyddonol ym Mhenweddig

**Ymweliad â Siop y Pentref**
Bu dosbarth 1 ar ymweliad â Siop y Pentref fel bod pawb yn cael cyfle i brynu llysieuyn ar gyfer paratoi cawl yn y dosbarth. Bwyddyn 1 a 2 fu'n torri'r llysiau tra fu 'r dosbarth derbyn yn paratoi salad ffrwythau . Bwyta'n iach amdani !

**Dawnsio gyda Charlotte**
Bu'r adran Iau yn derbyn hyfforddiant dawnsio gyda Charlotte yn ddiweddar ac roedd pawb wedi mwynhau.

**Pythefnos Wyddoniaeth**
Cafwyd pythefnos ddiddorol ym mis Tachwedd pan wnaethom lwyth o arbrofion ac ymchwiliadau gwyddonol yn ymwneud â'r corff. Bu Aled Ynni Da gyda ni yn dangos sut oedd creu egni drwy seiclo gyda 3 beic. Crëwyd digon o egni rhyngddynt i oleuo'r disgo gawsom yn y prynhawn. Yn ogystal bu Blwyddyn 5 a 6 yn Ysgol Penweddig yn cynnal arbrawf i weld os yw taldra person yn effeithio ar gynhwysedd ei ysgyfaint.

**Llongyfarchiadau i'r peldroedwyr**
Fe berfformiodd y bechgyn yn wych yn Nhwrnament 5 bob-ochr Ceredigion gynhaliwyd yn Llangrannog yn ddiweddar gan gyrraedd y rownd gyn-derfynol. Da iawn fechgyn , daliwch ati !

**Plant mewn Angen**
Diolch i bawb a gyfrannodd gacennau ar gyfer ein stondin ac i bawb a ddaeth i'w prynu. Wedi diwrnod o wisgo mewn pyjamas / wonsi casglwyd swm anrhydeddus o £108.

**Carolau o dan y goeden**
Daeth nifer dda o blant yr ysgol , rhieni ac aelodau o'r gymuned at ei gilydd ar drothwy mis Rhagfyr i ganu carolau y tu allan i Siop y Pentref cyn cynnau goleuadau y goeden Nadolig hardd. Estynwyd croeso cynnes a gair o ddiolch i'r gymuned am eu cefnogaeth gydol y flwyddyn gan Melanie a Dan.Yna bu pawb yn mwynhau y minspeis a'r siocled poeth.

**Cymry i'r Carn**
Carem groeawu ein Cymry i'r Carn yn eu hwdis coch newydd. Dyma'r tîm fydd yn hyrwyddo y defnydd o'r Gymraeg tu allan i'r ystafell ddosbarth gan wobrwyo gyda tocynnau arian y ddraig i'w gwario yn ein Siop Siarad ( ar agor bob dydd Mercher).




Tîm pêl-droed Llangrannig



Cymry i'r carn

# Ysgol Craig yr Wylfa



**Cefnogaeth y Gymuned**
Hoffai'r Ysgol ddiolch o galon i Bwyllgor Carnifal y Borth am y swm hael iawn a dderbyniodd yr Ysgol oddi wrthynt. Fe fydd yr arian yna yn cael ei wario i roi mwy o gyfleoedd i'r plant fynd ar dripiau addysgiadol ac adnoddau i'w defnyddio yn yr ysgol. DIOLCH!

**Plant Mewn Angen**
Er mwyn codi arian ar gyfer "Plant Mewn Angen" eleni cyfrannodd y plant er mwyn gwisgo i fyny neu wisgo dillad eu hun. Hefyd, diolch i Daisy, Lucy a Finn am goginio a gwerthu cacennau blasus iawn ar ddiwedd y dydd. Diolch – codwyd dros £80 tuag at yr elusen.

**Nofio Noddedig**
Eleni eto, cynhaliwyd "Nofio Noddedig" er mwyn codi arian ar gyfer talu am fws i fynd i nofio. Codwyd llawer o arian tuag at y bws, felly diolch i bawb am noddi'r plant. Hefyd, diolch yn fawr iawn i'r plant am nofio cymaint!

**Clwb Cŵl – Creu Torchau Nadoligaidd**
Ymunodd rhieni gyda'r Clwb Cŵl ar ddiwedd mis Tachwedd i greu torchau Nadoligaidd ar y cyd gyda'r plant ar gyfer eu gwerthu yn Neuadd Gymunedol y Borth. Diolch am gyfraniad pawb mewn unrhyw ffordd - y rhai a wnaeth gyfrannu'r adnoddau i greu'r torchau, eu gwneud a'u gwerthu.

**Trip CA2 i'r Llyfrgell Genedlaethol.**
Bu plant Cyfnod Allweddol dau i'r Llyfrgell Genedlaethol a chawsant groeso cynnes. Cawsant eu tywys o amgylch y Llyfrgell cyn clywed hanes am yr Ail Ryfel Byd. Buont yn gwneud amryw o weithgareddau yn seiliedig ar y pwnc, a chyfle i wneud bathodynnau fel oedd gyda'r ifaciwis.

**Celf a Chrefft yn y Ffair Aeaf**
Bu plant a fynychodd "Clwb Cŵl" yn wythnosol yn brysur iawn yn creu eitemau, megis masgiau Nadoligaidd a hosan Nadolig i gystadlu yn y Ffair Aeaf. Llongyfarchiadau i Lincoln a ddaeth yn 3ydd yn y gystadleuaeth creu mwgwd. Llongyfarchiadau i bawb - roedd pob eitem yn hyfryd ac roeddent yn werth ei gweld!

**"Dymunwn Nadolig Llawen, Dymunwn Nadolig Llawen…"**
Dymuna Ysgol Craig yr Wylfa Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda a hapus i bawb!









GWASANAETH
TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111



# Ysgol Rhydypennau


**Plant Mewn Angen**
Roedd hi'n ddiwrnod Plant Mewn Angen ar y 17eg o Dachwedd. Bu'r Cyngor Ysgol yn brysur yn trefnu stondinau a nifer o weithgareddau difyr er mwyn codi arian i'r elusen. Ar ddiwedd y dydd casglwyd £369.85 Ardderchog!

**Gala'r Urdd**
Da iawn i bawb a fu'n nofio yng ngala'r Urdd ym mhwll nofio Plas-crug yn ddiweddar. Gala i holl ysgolion Ceredigion oedd hon ac yr oedd nofwyr safonol iawn yn cystadlu. Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol am lwyddo i orffen yn y tri cyntaf; Noa Elias bl 4-1af (Pili Pala) a 3ydd (Broga); Tîm cyfnewid bechgyn blwyddyn 4-Morus Raggett, Gruffydd Siôn, Reian Morgan a Noa Elias. Gan fod y pedwar ohonynt yn fuddugol mi fyddant yn cynrychioli'r Sir yng Ngala Cenedlaethol yr Urdd lawr yn y Brifddinas yn y flwyddyn newydd. Campus!

**Llyfrgell Genedlaethol**
Ar y 4ydd o Ragfyr fe aeth blwyddyn 6 i'r Llyfrgell Genedlaethol. Yno cafodd y plant eu tywys o gwmpas y llyfrgell gan ddysgu am hanes yr adeilad a sut mae'r llyfrau, y cylchgronau a'r cyhoeddiadau diweddaraf yn cael eu cynnal a'u cadw. Ond y prif reswm am yr ymweliad oedd gweld Beibl William Morgan a gafodd ei gyhoeddi ym1588. Roedd hyn yn dipyn o fraint! Cafodd y plant hefyd gyfle i ddefnyddio cyfarpar argraffu arbennig er mwyn uniaethu gyda phroses lafurus printio yng nghyfnod y Tuduriaid. Diolch yn fawr i Mr Owain Dafydd am egluro a rhannu ei wybodaeth eang mor effeithiol gyda'r plant.

**Goleuo'r Goeden Nadolig.**
Ar y 7fed o Ragfyr goleuwyd ein coeden Nadolig tu allan yr ysgol. Perfformiodd Band Pres yr ysgol amryw o garolau cyn i'r Parchg Richard Lewis a Mrs Susan Herron wasgu'r swîts holl bwysig. Diolch i bawb am eich cefnogaeth ar noson mor oer!

**Panto**
Fe aeth plant blwyddyn 3, 4, 5 a 6 i Theatr y Werin yn ddiweddar i fwynhau panto blynyddol Cwmni 'Mega'. Eleni, un o hanesion fwyaf adnabyddus 'Y Mabinogion' oedd y stori sef Culhwch ac Olwen. Cafodd y plant amser difyr iawn. Hoffa'r ysgol gydnabod a diolch i Gyngor Celfyddydau Cymru am ariannu'r ymweliad trwy'r Loteri Cenedlaethol a Chynulliad Cymru.


Goleuo'r Goeden Nadolig.


Blwyddyn 6 yn ymweld â'r Llyfrgell Genedlaethol.

**Clwb Cant Rhagfyr**
Dyma'r canlyniad:
1af -£50- Catryn Lawrence-Trefechan.
2il-£30- Enid Evans-Llandre.
3ydd-£20- Gwynfor Lewis- Y Borth.

Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau:
*http://www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk*
*@YGRhydypennau-dilynwch ni ar drydar.*


Nofwyr buddugol-Reian Morgan, Morus Raggett, Gruffydd Siôn a Noa Elias


Prysurdeb Diwrnod Plant Mewn Angen.


Blwyddyn 6 gyda'r Beibl enwog!

# Ysgol Penrhyn-coch

**Trip Ifaciwis ar dren bach y Rheidol**
Fe fuodd holl blant cyfnod allweddol 2 ar drip yn ôl mewn hanes wrth ail fyw taith Ifaciwis o Aberystwyth i Bontarfynach ar drên bach y Rheidol. Ymunodd Ysgol Pen-llwyn a ni ar y daith hefyd a theimlwyd nifer o emosiynau gwahanol wrth ffarwelio gyda'n teuluoedd ar y platfform a phrofwyd tipyn o hwyl ar y trên wrth sgwrsio a chanu. Cafwyd croeso gwresog gyda staff Caffi Two Hoots wrth i ni lenwi ein boliau gyda chinio traddodiadol adeg y rhyfel. Roedd yn sbardun gwefreiddiol i barhau gyda'r thema sydd yn sicr wedi codi diddordeb ac awydd y plant i ddysgu mwy am adeg y rhyfel.

**Plant mewn angen**
Codwyd dros £100 eleni trwy wisgo ein pyjamas i'r Ysgol- diolch i'r cyngor Ysgol am drefnu ac i bawb a gyfrannodd.

**Twrnament T T Rockstars**
Cawsom dwrnament yn erbyn ein gilydd ar raglen TT Rockstars –rhaglen cyfrifiadurol sydd yn cynnig cyfle i ymarfer ein tablau o 1-12. Roedd hi'n frwydr yn wir ac ar ddiwedd y dydd coronwyd Harri Bradley o flwyddyn 3 fel y Rociwr mwyaf chwim! Da iawn i chi gyd am ymarfer a cheisio eich gorau.

**Pythefnos Gwyddoniaeth Gwych!**
**Ynni Da**
Ein thema yn Gwyddoniaeth y tymor yma yw'r corff. Fel rhan o'n gwaith daeth Aled Ynni Da i'r Ysgol; er mwyn i ni ddarganfod sut allwn ddefnyddio ein cyrff i greu egni. Yn gyntaf bu raid ceisio goleuo 4 bwlb 60W drwy seiclo ar feic. Wedyn cofnodi curiad ein calonnau ar ôl ymarfer ar y beic ac roedd Aled yn medru gweithio allan sawl wat o egni gynhyrchwyd gennym. Tasg mwy anodd na beth oeddwn yn





disgwyl. Yna yn y prynhawn cawsom brofiad gwerth chweil sef Pedlo pŵer i'r disgo. Felly nid unrhyw ddisgo ond disgo drwy seiclo! Roedd pedwar plentyn yn pedlo ar yr un pryd ac roedd hyn yn creu digon o egni i gynhyrchu goleuadau a cherddoriaeth! Am brofiad bythgofiadwy – y Neuadd yn siang-di-fang a phawb yn mwynhau gan ddefnyddio ein cyrff!

Adroddiad gan Mari Gibson

**Ysgol Uwchradd Penweddig**
Aeth disgyblion blwyddyn 5 a 6 i fwynhau defnyddio'r adnoddau yn labordai Ysgol Penweddig - roedd yn brofiad cael defnyddio adnoddau pwrpasol wrth ddysgu mwy am y corff.



## Llythyr

Annwyl gyfaill
Oes gennych chi syniad cyffrous ar gyfer prosiect sy'n dod â phobl at ei gilydd trwy weithgareddau yn eu cymuned tra ar yr un pryd yn dathlu blodau gwyllt a phlanhigion brodorol y DU?

Os mai "oes" yw'r ateb mae Tyfu'n Wyllt yn cynnig grantiau o £2,000 - £4,000 i grwpiau a phrosiectau sydd â syniadau creadigol.

Grwpiau cymwys i ymgeisio yw grwpiau ieuenctid, ysgolion uwchradd, cynghorau plwyf, tref a chymuned, awdurdodau a byrddau iechyd a charchardai.

Mae gennych tan y 15fed o Ionawr 2018 i gyflwyno cais ac mae mwy o fanylion i'w gweld ar wefan Tyfu'n Wyllt ar www.growwilduk.com/cy

Pob lwc
**Maria Golightly**
**Rheolwr Cymru Tyfu'n Wyllt**
**m.golightly@kew.org.uk**
**+44 (0) 7917 266445(Gol.)**


**D J Evans**
**Cyfarwyddwyr Angladdau**


Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad

Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ

Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
evansfunerals@talk21.com

**Aberystwyth 01970 615328**
**Penrhyn-coch 01970 820249**
**Machynlleth 01654 700006**

**Cronfa Eleri**
**Blwyddyn 2017 – dros £18,700 i'w rannu**
Gwahoddir ceisiadau am gymorth i gynlluniau sy'n gydnaws ag amcanion y Gronfa



Ffurflen gais a manylion ar gael o: **cronfaeleri.cymru**
Neu gan: Ysgrifennydd Cronfa Eleri
Garreg Wen
Tal-y-bont
Ceredigion SY24 5HJ
**Tel:** 01970 832551 **e-bost**: ymholiadau@cronfaeleri.com
**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Ionawr 15fed 2018**

**Amcanion Cronfa Eleri**
*'Hybu bywyd cymdeithasol, addysgol a diwyllianol cynhenid yr ardal sydd wedi ei chanoli ar Mynydd Gorddu'*

# Tasg y Tincer

Wel, edrychwch ar yr holl enwau hyn! Bu'r sach bost yn llwythog drwy'r mis. Diolch i chi i gyd am eich gwaith – derbyniais lond gwlad o eirth Pydsi! Dyma'r enwau: Besi Benjamin James, Llandre; Einion Davies, Llanilar; Gruffudd ap Llywelyn, Capel Madog; Caitlin Rees Roberts, Rhydyfelin; Cari Jenkins, Penrhyn-coch; Moi Schiavone, Aberystwyth; Anest Jackson, Bow Street; Lois Martha Roberts, Bont-goch; Megan Haf Dunne, Bont-goch; Ted Elias Jones, Capel Seion; Gwawr Morgan, Dolau; Lucie a Henry Medhurst, Penrhyn-coch; Dylan Rhys ac Owain Wyn Hedd Herron, Bow Street; Erin Williams, Capel Bangor; Iestyn Evans, Y Borth; Jack Owen Roberts, Bow Street.

Roedd angen het fawr iawn arna i y mis hwn ar gyfer eich enwau i gyd, ond ar ôl twrio, dy un di, **Erin**, ddaeth o'r het yn gynta!

Y tro hwn, beth am liwio llun y cantorion yn morio canu? Tybed pa garol yw hi? A oes gennych chi eich hoff garol? Mae'n siŵr eich bod chithau hefyd wedi bod wrthi'n dysgu carolau a chaneuon Nadolig yn yr ysgol ac yn yr ysgol Sul. Wyddoch chi fod gennym yma yng Nghymru garolau arbennig iawn, sef carolau'r **Plygain**? Roedd y caneuon hyn arfer cael eu canu mewn eglwysi yn gynnar, gynnar ar fore dydd Nadolig. Erbyn hyn, mae sawl eglwys, capel a neuadd bentre yn cynnal gwasanaeth y Plygain, gan gynnwys eglwys Penrhyn-coch, wrth gwrs. Dwi wrth fy modd efo rhai o'r hen, hen garolau hyn. Beth am edrych am glipiau o bobl yn canu Plygain ar YouTube?

Anfonwch eich lluniau o'r cantorion i'r cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn Ionawr 5. Nadolig Llawen i chi i gyd, mwyhewch eich gwyliau, a wela i chi yn 2018!



Erin

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru

CYMRAEG



**Enw**

**Cyfeiriad**

**Ysgol**

**Rhif ffôn** **Oed**

MYNACH GARDEN MAINTENANCE

**Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio**

Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol

**Ffoniwch Meirion:**

07792 457816

01974 261758

e-bost: mynachhandyman @yahoo.com

**Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch**

CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT

AR AGOR O 5:30 P.M.
NOSWEITHIAU IAU A GWENER
AM BRYDIAU TEULUOL

**JONATHAN LEWIS**

Saer Coed / Adeiladydd

01970 880 652

07773 442 260

BRONLLYS, CAPEL BANGOR
ABERYSTWYTH

ISSN 0963-925X

9 770963 925009

*Rhif 404 | RHAGFYR 2017*